

## Y Pwyllgor Deisebau

---

Lleoliad:  
**Ystafell Bwyllgora 1 – y Senedd**

---

Dyddiad:  
**Dydd Mawrth, 14 Mai 2013**

---

Amser:  
**09:00**

---

Cynulliad  
Cenedlaethol  
Cymru

National  
Assembly for  
Wales



I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch a:

**Naomi Stocks**  
Clerc y Pwyllgor  
029 2089 8421  
[deisebau@cymru.gov.uk](mailto:deisebau@cymru.gov.uk)

**Kayleigh Driscoll**  
Dirprwy Clerc y Pwyllgor  
029 2089 8421  
[deisebau@cymru.gov.uk](mailto:deisebau@cymru.gov.uk)

---

## Agenda

---

- 1. Cyflwyniad, ymddiheuriadau a dirprwyon 9.00**
- 2. Deisebau newydd 9.00 – 9.15**
  - 2.1 P-04-478 Pecyn gwybodaeth syml i bawb yng Nghymru yn esbonio sut y gallant sefyll fel ymgeisydd (Tudalen 1)
  - 2.2 P-04-479 Deiseb Adran Pelydr-X ac Uned Man Anafiadau Ysbyty Tywyn (Tudalennau 2 – 4)
  - 2.3 P-04-480 Mynd i'r afael â Safon Tai Myfyrwyr yn y Sector Preifat (Tudalennau 5 – 35)
  - 2.4 P-04-481 Cau'r bwch ar gyfer disgyblion byddar yng Nghymru (Tudalennau 36 – 47)
  - 2.5 P-04-482 Hysbysfyrddau cyhoeddus ar draws Cymru i rhoi wybod i'r cyhoedd pwy yw eu cynrychiolwyr gwleidyddol (Tudalen 48)
  - 2.6 P-04-483 Polisi Cymraeg Clir / Plain English ar gyfer pob cyfathrebiad y Cynulliad Cenedlaethol a Llywodraeth Cymru (Tudalennau 49 – 52)
- 3. Y wybodaeth ddiweddaraf am ddeisebau blaenorol 9.15 – 9.45**
  - 3.1 P-04-462 Gwahardd codi baner y Deyrnas Unedig ar adeiladau swyddogol yng Nghymru (Tudalennau 53 – 54)

## Yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth

- 3.2 P-04-319 Deiseb ynghylch Traffig yn y Drenewydd (Tudalennau 55 – 56)
- 3.3 P-04-426 Cyflwyno terfyn cyflymder gorfodol o 40mya ar ffordd yr A487 ym Mlaen-porth, Ceredigion (Tudalennau 57 – 60)

- 3.4 P-04-459 Cysylltiad rheilffordd uniongyrchol o Faes Awyr Caerdydd i ganol Caerdydd a gorllewin Cymru (Tudalennau 61 – 64)
- 3.5 P-04-468 Pryderon am Ddiogelwch Ffordd A48 Cas-gwent (Tudalennau 65 – 66)

### **Cyfoeth Naturiol a Bwyd**

- 3.6 P-04-398 Ymgyrch dros gael cofrestr ar gyfer pobl sy'n cam-drin anifeiliaid yng Nghymru (Tudalennau 67 – 81)
- 3.7 P-04-399 Arferion lladd anifeiliaid (Tudalennau 82 – 83)
- 3.8 P-04-433 Teledu Cylch Cyfyng mewn Lladd-dai (Tudalennau 84 – 85)

### **Llywodraeth Leol a Busnes y Llywodraeth**

- 3.9 P-04-402 Gweddiau Cyngor (Tudalennau 86 – 89)

### **Iechyd**

- 3.10 P-04-400 Safon Ansawdd NICE ym Maes Iechyd Meddwl (Tudalennau 90 – 93)

### **Bydd y pump eitem a ganlyn yn cael eu trafod ar y cyd**

- 3.11 P-04-367 Achub ein Gwasanaethau Ysbyty (Tudalen 94)
- 3.12 P-04-394 Achub ein Gwasanaethau – Ysbyty Tywysog Philip (Tudalen 95)
- 3.13 P-04-430 : Y bwriad i gau Uned Mân Anafiadau Dinbych-y-pysgod (Tudalen 96)
- 3.14 P-04-431 Preswylwyr Sir Benfro yn erbyn Toriadau i Wasanaethau Iechyd (Tudalen 97)
- 3.15 P-04-455 Achub adran achosion brys yn Ysbyty'r Tywysog Philip (Tudalennau 98 – 100)

### **Tai ac Adfywio**

- 3.16 P-04-417 Achubwch Draeth Morfa ac ataliwch Lwybrau Troed Cyhoeddus 92 a 93 rhag cau (Tudalennau 101 – 102)
- 3.17 P-04-461 Achub Pwll Padlo Pontypridd (Tudalennau 103 – 114)

### **Sesiynau Dystiolaeth**

- 4. **P-04-472 Gwnewch y Nodyn Cyngor Technegol Mwynau yn ddeddf: Sesiwn Dystiolaeth 09.45 – 10.15** (Tudalennau 115 – 118)

Dr John Cox, Deisebydd

Lynne Neagle, Aelod Cynulliad

5. **P-04-442 Sicrhau cymorth da i blant anabl a'u teuluoedd sy'n agos i'w cartrefi: Sesiwn Dystiolaeth 10.15 – 10.45** (Tudalennau 119 – 122)

Ian Thomas, Cyfarwyddwr Cymru, Scope

# Eitem 2.1

## **P-04-478 Pecyn gwybodaeth syml i bawb yng Nghymru yn esbonio sut y gallant sefyll fel ymgeisydd**

### **Geiriad y ddeiseb:**

Rydym yn galw ar Gynulliad Cenedlaethol Cymru i annog Llywodraeth Cymru i anfon taflen ddealladwy, glir i bawb o oedran pleidleisio yng Nghymru, yn esbonio sut y gallant sefyll mewn etholiadau lleol, cenedlaethol neu Brydeinig os dyna'u dymuniad.

**Prif ddeisebydd:** Cymru Sofren

**Ysytirwyd am y tro cyntaf gan y Pwyllgor:** 14 Mai 2013

**Nifer y llofnodion :** 11

### **P-04-479 Deiseb Adran Pelydr-X ac Uned Man Anafiadau Ysbyty Tywyn**


**Geiriad y ddeiseb:**

Galwn ar y Cynulliad Cenedlaethol dros Gymru i annog y Llywodraeth Gymraeg i atal diddymu a chwtogi ar y gwasanaethau Adran Pelydr-X ac Uned Man Anafiadau Ysbyty Tywyn fel mater o frys.

**Prif ddeisebydd:** Tywyn & District Health Care Action Group

**Ysytirwyd am y tro cyntaf gan y Pwyllgor:** 14 Mai 2013

**Nifer y llofnodion :** 4486



## TYWYN & DISTRICT HEALTH CARE ACTION GROUP. GRWP GWEITHREDU GOFAL IECHYD TYWYN AR CYLCH

1<sup>st</sup> May 2013

### **Tywyn Memorial Hospital X-ray & Minor Injuries Unit Petition**

#### **The reasons for the petition.**

*To call upon the National Assembly for Wales to urge the Welsh Government to stop the withdrawal of X-ray facilities & the reduction in provision of services by the Minor Injuries Unit as a matter of urgency.*

*To enable all interested residents & visitors the opportunity to express their views about the proposed closure of the X-ray unit & the reduction of staff & hours in the Minor Injuries Unit in Tywyn Memorial Hospital. To make those views available to the National Assembly for Wales, the Welsh Government and the Health Minister.*

*To call upon all authorities to ensure equality of health care provision in our rural mid-Wales area.*

#### **Background.**

As a result of considerable concern in the local population about current & future Health Care in the Tywyn & District area, an action group was formed in 2012. We are a non-political group and aim to represent the interests of all age groups in this largely rural area in mid-Wales. Since our formation we have been active in participating in the Betsi Cadwaladr & Hywel Dda Health Board Consultations and expressing the views of the local population to Betsi Cadwaladr CHC, the Minister for Health & Social Services, the Chief Executives of BCUHB & Hywel Dda Health Board.

Although Tywyn & District falls within the BCUHB area, our nearest General Hospital is Bronglais, Aberystwyth (see our map Logo), in the Hywel Dda area, 35 miles & at least one hour travel from Tywyn. Some residents in the surrounding area have to travel even further and the bridge at Machynlleth may be closed through damage or flooding which periodically gives rise to a considerable detour. The "Golden Hour Rule" can probably only be met by paramedics or Air Ambulances.

The locality is very rural and Tywyn Memorial Hospital serves a wide area, not just the town itself but other towns & villages around. There is also a very considerable increase in population in the summer. Many people visit the area in the months April to October and have holiday homes, chalets & caravans locally. The supporters of both the written & online parts of the petition reflect this. Many of the visitors have availed themselves of the local health service provisions and understand it's efficacy & importance in a rural area. Some of them do voluntary work in the area e.g. on the Talyllyn Railway.

Public transport is extremely sparse & reduces year by year with no prospect of improvement.

#### **X-ray Unit.**

Betsi Cadwaladr University Health Board have plans to close the X-ray unit and reduce the staff and hours of availability of the Minor Injuries Unit in Tywyn Memorial Hospital. The Community Health Council has expressed its objection to the plans for South Gwynedd which also affects North Powys & North Ceredigion. We believe that if the plans go ahead the people of South Gwynedd are not being treated on a fair and equal basis with other parts of Wales.

We believe that the statistics used to argue for the closure of the X-ray unit in Tywyn are inaccurate. Target figures have been used which are impossible to meet in a unit which is only open on a few occasions in the week. The argument to use a unit elsewhere (Dolgellau, which is North of Tywyn, whereas our General Hospital is South), which will provide more hours of service does not hold water, unless you have a car available & can drive, because of the distance and lack of public transport. The alternative X-ray services offered involve round trips of 30, 40 & 60 miles (more for people who have to travel to Tywyn in the first place).

Please stop the closure of the X-ray Unit and at least maintain the level of availability.

### **Minor Injuries Unit.**

We object to the available hours for the MIU being reduced which seems to fly in the face of the object of treatment being available nearer to home. It is self-evident that minor injuries occur more frequently than serious injuries or illness & should be dealt with as close as possible to the place where the need arises. Early diagnosis & treatment is the most efficient method & prevents further costly complications arising. The welfare of the patient is important! Travelling to an alternative MIU is difficult in an area with sparse public transport & where older, injured, ailing & frail patients are not able to use their own transport.

We believe that, because of the inadequacy of present out-of-hours GP service, the lack of transport in a very rural area and the distance/time element of getting to an alternative treatment centre, more patients will use the 999 service which will put even more pressure on the Ambulance Service and A & E departments. Diagnosis & most treatment in a locally available MIU with trained staff is surely preferable and less costly.

The Minor Injuries Unit, however, is even now being dismantled, in spite of the fact that the Community Health Council has objected to the Betsi Cadwaladr University Health Board plans for the South Gwynedd area and in particular Tywyn. This gives great concern since well trained & skilled staff are being lost to the unit and with the staff being reduced to two we are concerned how they will provide a service to patients and cover for staff illness & holidays. The team who have trained & worked well together for some years will no doubt be very demoralised. They have developed the ability to assess, diagnose, treat or refer patients speedily but with reductions of staff & hours of availability their effectiveness will be reduced.

Please at least maintain the staff level & hours of availability for the Minor Injuries Unit.

### **Tywyn Memorial Hospital**

There are proposals for the development of Tywyn Hospital site as an integrated primary care resource centre. BCUHB is awaiting a decision on the business case from the Welsh Government which they say they expect in early 2013 but there is no date as yet for implementation. The original building design included an X-ray Department. In the light of such a development, where is the logic in closing the X-ray Unit & running down the MIU now?

Brian Mintoft  
Secretary T&CHCAG.

# Eitem 2.3

## **P-04-480 Mynd i'r afael â Safon Tai Myfyrwyr yn y Sector Preifat**

### **Geiriad y ddeiseb:**

Galwn ar Gynulliad Cenedlaethol Cymru i annog Llywodraeth Cymru i ymchwilio i'r problemau a nodwyd yn yr adroddiad diweddar am yr arolwg o dai yn Aberystwyth yn 2012. Cododd yr adroddiad bryderon ynghylch safon wael llety myfyrwyr a'r ffordd wael, sy'n cyfateb i hynny, y caiff myfyrwyr eu trin yn y sector rhentu preifat. At hynny, galwn ar Lywodraeth Cymru i gynnal ymgynghoriad llawn ac agored ynghylch y mater angof hwn gyda'r cymunedau y mae hyn yn effeithio arnynt, yn ogystal â sicrhau bod deddfwriaeth tai bresennol a mesurau newydd gan yr awdurdodau perthnasol yn cael eu dilyn yn gywir er mwyn cynorthwyo i godi safonau yn y sector rhentu preifat.

Mae tai myfyrwyr wedi bod yn broblem gyson yn Aberystwyth ers blynyddoedd. Cynhaliwyd arolwg ymysg myfyrwyr ynghylch eu profiadau o ran tai ac mae manylion am y problemau maent yn eu hwynebu wedi'u cynnwys mewn adroddiad a gyhoeddwyd ym mis Rhagfyr 2012.

**Prif ddeisebydd:** Aberystwyth Students Union

**Ysytiriwyd am y tro cyntaf gan y Pwyllgor:** 14 Mai 2013

**Nifer y llofnodion :** 188





# Arolwg Llety Myfyrwyr Adroddiad: 2012



CYMORTH  
SUPPORT

# Cynnwys

3. Cyflwyniad – Laura Dickens, Swyddog Cymorth Myfyrwyr
5. Sylwadau ar yr Adroddiad
6. Casgliadau
7. Dadansoddiad o Gost Swyddfeydd Gwerthu Tai
8. Dadansoddiad o Ganlyniadau Swyddfeydd Gwerthu Tai  
(ceir dadansoddiad o bob swyddfa tai ar bob tudalen)
21. Swyddfeydd gwerthu eraill
23. Rentu yn y sector preifat
24. Sylwadau ar y sector preifat
27. Sylwadau
29. Casgliadau
30. Atodiad I

# Cyflwyniad

Daeth yr adroddiad hwn yn sgil y cynnydd yn y nifer o broblemau sy'n gysylltiedig â llety'r sector preifat yn Aberystwyth. Ffocws cychwynol yr arddodiad hwn oedd costau, megis costau gweinyddiaeth uchel a phrisiau cofrestru uchel ar gyfer y cynllun blaendal. Mae myfyrwyr yn eu cael hi'n anodd talu am y rhain ar ben costau byw eraill mae rhaid iddynt dalu.

Roedd hi'n hanfodol inni ddarganfod faint o rent oedd y myfyrwyr yn talu bob wythnos, ar ôl i erthygl gan y BBC gyhoeddi mae £62.01 o 2011 oedd y pris rent ar gyfartaledd. (gwelir yr erthygl yn atodiad 1). Nid oedd hyn yn cyfateb i'r pris a welon ni ar nifer o gytundebau. Roedd hi'n hanfodol inni ddarganfod beth oedd pobl wedi cynnwys yn eu rent cymedr, ac rydym wedi dadansoddi hyn ar y tudalennau nesaf.

Roedd arolwg llety yr NUS yn cynnwys barn 156 o fyfyrwyr am lety yn Aberystwyth ac roedd yr adroddiad yn trafod costau, blaen taliadau a safon tai yn fanwl. Gan fod tua 6000 o fyfyrwr yn y sector breifat roedd hi'n bwysig inni archwilio ymhellach er mwyn cael y darlun llawn. Derbyniom ni 308 o ymatebion dilys sy'n golygu bod y ffigur yn cynrychioli'r sefyllfa yn well, er hyn dim ond 5.13% o ymatebion y sector breifat. Er hyn mae'n bwysig inni nodi fod nifer o fyfyrwyr wedi llenwi'r holiadur ar ran y myfyrwyr maent yn rhannu tai â nhw, sydd felly yn gwneud yr adroddiad yn gyfrif manwl o'r sefyllfa tai presennol yn Aberystwyth.

Y llynedd (2011 – 2012) roedd rhai myfyrwyr yn aros mewn rhes hir, hir iawn am rai swyddfeydd llety, ac roedd myfyrwyr yn danfon negeseuon yn dweud bod angen ystafell arnyn nhw ar frys.

Hefyd, y llynedd cyflwynwyd ystafelloedd bync yn llety'r Brifysgol yn sgil y brifysgol yn derbyn gormod o fyfyrwyr. Rhoddodd hyn bwysau aruthrol ar y farchnad i roi llety i'r myfyrwyr ychwanegol ac arweiniodd at yr ymgyrch 'Gan bwyll – peidiwch â rhuthro.' Yn yr adroddiad, mae myfyrwyr yn cyfeirio at y panig yma a'r modd roeddent yn teimlo o dan bwysau i arwyddo cytundeb oherwydd roeddent yn teimlo nad oedd digon o lety yn y dref i bawb.

Yn sgil cyflwyno £9000 o ffioedd bob blwyddyn am le yn y brifysgol, mae'r nifer o fyfyrwyr sy'n cofrestru yn y brifysgol wedi gostwng, yn ogystal â chyflwyno sawl datblygiad tai newydd megis Old Crown Buildings a llety newydd y Brifysgol ar gyfer 2014. Bydd hyn yn ogystal â datblygiadau eraill yn sicrhau diflaniad llety o safon isel ac yn hytrach yn gweld safonau llety yn cynyddu. O ganlyniad, rydym yn gobeithio bydd y prisoedd uchel mae'r arolwg wedi'i gofnodi yn disgyn.

Mae'n bwysig nodi fod yr arolwg yn cynnwys adolygiadau o 18 swyddfeydd tai a nifer fawr o berchnogion tai yn y sector preifat. O ganlyniad mae'n bwysig cofio wrth edrych ar y siart gylch bod y nifer fach o adolygiadau a dderbyniwyd gan bob cwmni yn effeithio ar sgôr negyddol/positif y siart gylch a dderbyniwyd, ac nid yw hi o reidrwydd yn rhoi darlun llawr o beth mae'r Asiantaeth fel.

Nid yw sgôr positif, niwtral a negatiff y tabl a dderbyniwyd yn golygu bod Undeb y Myfyrwyr yn ffafriol i unrhyw swyddfa lety yn fwy na'r llall. Pwrpas yr arolwg hwn oedd casglu gwybodaeth, felly ni roddwyd unrhyw ffafriaeth i unrhyw swyddfa lety. Mae'r sylwadau a ddewiswyd ar gyfer bob swydd swyddfa lety yn cynrychioli'r sylwadau a dderbyniwyd gan y myfyrwyr eraill. Ac mae'r sylwadau llawn am bob swyddfa lety wedi cael ei ddanfôn atynt. Gellir derbyn copi llawn o'r sylwadau trwy ofyn amdanynt trwy ddanfôn e-bost at y cyfeiriad a welir isod.

Roedd gadael sylw yn opsiwn felly golyga hyn fod nifer o fyfyrwyr oedd yn hapus gyda'i llety heb roi sylw ac felly ystyrir y rhain yn niwtral.

Ar ddiwedd yr adroddiad hwn gwelir sylwadau a chasgliadau am y sefyllfa tai yn Aberystwyth ac yn nodi sut yr ydym yn bwriadu delio gyda'r problemau sy'n codi yn yr adroddiad. Ein gobaith yw gweithio gyda'r Cyngor Sir, y swyddfeydd llety a'r perchnogion tai yn y sector preifat er mwyn sicrhau fod y myfyrwyr yn cael eu trin yn deg, ac yn byw mewn llety o safon uwch yn y dyfodol.

Rwy'n gobeithio bydd yr arolwg yn werthfawr i chi ac os oes gennych unrhyw sylwadau neu unrhyw fater am y sefyllfa dai yna danfonwch e-bost at [union.support@aber.ac.uk](mailto:union.support@aber.ac.uk)

Laura Dickens  
Swyddog Cymorth Myfyrwyr  
Undeb Myfyrwyr Aberystwyth

# Sylwadau ar yr adroddiad

“Mae costau byw yn Aberystwyth mor uchel â chostau byw yn San Steffan, ac oherwydd hyn mae myfyrwyr Aberystwyth yn haeddu gwell. Gan fy mod i wedi byw yma am ddwy flynedd rwy'n ymwybodol fod problemau tai yma – ac mae'r Brifysgol, yr Undeb a'r Llywodraeth leol angen cydnabod hyn.

Mae myfyrwyr yn rhan allweddol o'r economi lleol, ond maent yn cael eu cam-drin gan swyddfeydd tai lleol a pherchnogion tai lleol. Nid oes gan Aberystwyth unrhyw obaith o lwyddo yn y dyfodol os yw hyn yn parhau.”

*Greg Dash, Cyd-sefydlydd Undeb Llety Myfyrwyr Aberystwyth*

“Rwy'n croesawu'r gwaith sy'n cael ei gwneud ac rwy'n gobeithio bydd hi'n gwella'r sefyllfa tai yma yn Aberystwyth sy'n gallu bod yn broses ingol a phoenus i nifer o bobl.

Mae fy ngwaith fy hun wedi ymwneud llawer a'r sefyllfa tai wrth iddi effeithio ar fyfyrwyr ac rwy'n croesau'r cyfathrebu rhwng myfyrwyr a'r cyngor.”

*Mark Williams, AS dros Ceredigion*

“Mae'n galonogol gweld ymateb cryf y myfyrwyr at yr arolwg hwn, er hyn mae'n dangos bod tai yn y sector preifat yn bryder mawr i'r rhai sy'n byw yma, nid yn unig cyn iddyn nhw arwyddo'r contract, ond trwy gydol eu hamser fel myfyrwyr. Mae'r ymatebion i'r adroddiad yn dangos bod safon perchnogion tai yn amrywio ar draws Aberystwyth, er hyn rydym yn gobeithio bydd yr arolwg yn annog eraill i ymuno a ni i weithio gyda'r perchnogion tai er mwyn gwella safon byw y tai er lles y myfyrwyr cyfredol, a'r nifer fawr o fyfyrwyr a fydd yn astudio yma yn y dyfodol.”

*Robert Hardware, Cynrychiolydd Undeb Tai Myfyrwyr Aberystwyth*

# Darganfyddiadau

Derbyniodd yr arolwg tua **308** o ymatebion dibynadwy, roedd tua **116** am berchnogion tai'r sector preifat ac roedd tua **193** am swyddfeydd tai.

Ar gyfartaledd, pris rent bob wythnos, ac eithrio cost biliau yw **£81.74**. Y pris lleiaf oedd **£48.00** a'r mwyaf drud oedd **£187.50**.

Ar gyfartaledd, pris rent bob wythnos gan gynnwys cost rhai biliau yw **£80.25**. Y pris lleiaf oedd **£50.00** a'r pris uchaf oedd **£127.00**.

Ar gyfartaledd, pris rent bob wythnos gan gynnwys bob bil yw **£91.21** a'r pris uchaf yw **£160.00**.

# Dadansoddiad o Costau Swyddfeydd Tai (£s)

Swyddfeydd Tai	Cost rent bob wythnos	Blaentaliadau	Costau gweinyddol	Costau eraill
AI	62.50-100	150-450	50-150	-
ABA	70-105	200-450	10-50	-
Aber Letting	61-187.50	270-750	10-45	22-50
Aber Student	75-100	100-650	-	-
Alexanders	61.25-175	360-950	40-150	30-100
ALP	70-110	280-700	50-132	35-50
GD Lettings	75-85	250-350	25-40	-
MS Properties	50-110	200-450	10-200	100-120
Padarn	69-82	150-330	40-70	100
Philip Evans	73-150	100-625	20-100	-
Seafront Student	70-80	100-500	-	-
I Stop Lettings	105-127	425-550	15	

Rydym wedi cael y rhifau hyn o wybodaeth a dderbyniwyd gan Fyfirwyr. Nid oedd rhai wedi nodi os oedd y rhent yn cynnwys blaendal, neu os oedd y rhent yn cynnwys dau berson, felly gall hyn bod yn gyfrifol dros yr amrywio uchel. Mae'r ffigurau hefyd yn wahanol yn dibynnu ar faint ac ar safon y llety.


# Dadansoddiad o ganlyniadau Swyddfeydd Tai

Swyddfa Tai	Adolygiadau Positif	Adolygiadau Niwtral	Adolygiadau Negatif
A1	0	9	4
ABA	4	4	4
Aber Letting	3	8	1
Aber Student	3	2	1
Alexanders	0	6	12
ALP	2	17	6
GD Lettings	0	2	6
MS Properties	2	13	6
Padarn	5	8	4
Philip Evans	3	28	11
Seafront Student	0	2	3
1 Stop Lettings	1	2	0



# AI Property Management

## Adborth



■ Positif a  
Niwtral

■ Negatif

O'r 12 canlyniad a dderbyniwyd

## Sylwadau


*“Mae safon y llety o amgylch y dref yn isel felly rydw i wedi diweddu yn byw mewn llety drud iawn ac o safon isel ond o leiaf mae gen i olygfa o'r môr!”*

*“Yn fy nhyb i ddefnyddiodd AI tactegau gorfodol wrth ddelio â myfyrwyr. Rwy'n credu ei bod nhw'n defnyddio proffesiynoldeb fel tacteg sy'n rhoi ofn i'r myfyrwyr fel ein bod nhw yn eu gweld nhw fel y grym dominyddol”*

*“Rhaid talu rhent pris llawn dros yr haf er nad oeddem yn byw yno.”*

# ABA Property Management

## Adborth



■ Positif a  
Niwtral

■ Negatif

O'r 12 canlyniad a dderbyniwyd

## Sylwadau

*“Mae e wedi bod yn wych. Os ydw i wedi cael unrhyw broblem 'dwi wedi ffonio fe (hyd yn oed am 8yh) ac mae e wedi bod gyda mi mewn llai na 5 munud. Mae'n hynod o gyfeillgar a chymwynasgar :)”*


*“Hynod o gyfeillgar a phroffesiynol. Pan symudon nhw i'r llety rhoddwyd rhestr o wasanaethau oedd ar gael inni mewn argyfwng. Mae hyn wedi bod yn gymorth mawr inni.”*

*“Mae'r rhent yn uchel am yr hyn ni'n cael. Rhaid talu'r un pris am ystafelloedd bach yn yr atig ac ag ystafelloedd sy'n tair gwaith mwy eu maint ar y llwr gwaelod.’*

*‘Diogelwch gwael iawn yn y fflat ac roedd y perchennog wedi cymryd misoedd i ddatrys ein problemau.’*

# Aber Letting

## Adborth



- Positif a Niwtral
- Negatif

O'r 12 canlyniad a dderbyniwyd

## Sylwadau


*“Roeddwn i'n casáu'r ffaith pa mor gynnar roedd rhaid inni ddechrau talu. Doedd neb wedi dweud wrthym ni fod e mynd i gychwyn mor gynnar pan arwyddon ni'r cytundeb. Dywedon nhw galle fe fod unrhyw bryd rhwng y Laf o Orffennaf a'r Laf o Fedi.”*

*“Hapus iawn gyda Aber Letting. Roedd gennym ni gysylltiad da gyda nhw trwy gydol y flwyddyn ac roedden nhw'n gyflym yn ddatys unrhyw broblem. Roedd y fflat mewn cyflwr da, y cytundeb yn iawn a safonol”*

*“Mae'n ddrud iawn ac mae rhaid i fi gael swydd i dalu amdano fe, ond mae'n llety hyfryd iawn.”*

# Aber Student

## Adborth



■ Positif a  
Niwtral  
■ Negatif

O'r 6 canlyniad a dderbyniwyd

## Sylwadau


*“Er bod popeth wedi ei cynnwys, heblaw am y trydan, a mae fy landlord yn dda o gymharu â'r landlord blaenorol oedd yn OFNADWY, dwi dal yn teimlo fy mod i'n talu mwy na dylsai fod am fflat 2 ystafell.”*

*“Digonedd o le i dalu.”*

*“Rwy'n teimlo fy mod i'n ffodus iawn oherwydd mae Mr Johnson yn ddibynadwy iawn ac yn esbonio pethau i ni megis y cynllun talu blaendal ac mae wedi gwneud amser i sicrhau bod ein problemau, megis clo drws oedd wedi torri, yn cael eu datrys yn mor gyflym â phosib.”*

# Alexanders

## Adborth



O'r 18 canlyniad a dderbyniwyd

## Sylwadau


*“Yn dda iawn mor belled. Mae staff Alexanders wedi bod yn gyfeillgar iawn, ond rhaid dwrdio nhw tipyn cyn bod nhw'n datrys unrhyw broblem.”*

*“Er inni ofyn nhw nifer o weithiau i ddatrys problem y polyn llenni, cwmpodd y polyn ac anafu cariad un o'm cyd-fyfyrwyr, yn ffodus nid oedd yr anaf yn rhy ddifriol. Hefyd, roedd mowld yn y tŷ pan gyrhaeddon ni ac nid oedd hi'n addas i fyw ynddi tan wythnos a hanner ar ôl i'r cytundeb cychwyn.”*

*“Roedden nhw am inni arwyddo'r cytundeb ar unwaith hyd yn oed ar ôl inni ddweud ein bod ni eisiau darllen hi yn ofalus. Rhoddon nhw ddeuddydd inni, felly nid oedd hyn yn ddigon o amser i fi bostio hi i fy rhieni i gael darllen hefyd.”*

# ALP Property Management

## Adborth



■ Positif a  
Niwtral  
■ Negatif

O'r 25 canlyniad a dderbyniwyd

## Sylwadau

*“Maen nhw'n araf iawn yn datrys unrhyw broblemau, eto i gyd maen nhw'n dda iawn pan ydych chi fynd i fod yn hwyr yn talu eich rhent, os ydych yn dweud wrthyn nhw.”*


*“Wnaethom ni gysylltu â nhw ynglŷn â nifer o broblemau yn y tŷ (roedd clo'r drws ffrynt wedi torri, drws y ffwrn wedi torri, roedd damp o amgylch y lle ayyb) a dywedon nhw wrthym ni ein bod ni'n 'cwyno gormod.’”*

*“Mae ALP wedi derbyn nifer o adolygiadau negyddol. Ond maen nhw'n bobl hawdd i ddelio a nhw ac yn bobl gyfeillgar.”*

*“ £50 oedd y cost gweinyddol, ond rwy'n credu roedd hwnna rhywbeth i wneud a'r cynllun blaendal. Dywedodd neb wrthyn ni am beth oedd yr arian yn talu.”*

# GD Lettings

## Adborth



■ Positif a  
Niwtral  
■ Negatif

O'r 8 canlyniad a dderbyniwyd


## Sylwadau

*"Nid oedd y fflat yn lan pan gychwynnodd ein cytundeb. I ddweud y gwir nid oedd hi mewn cyflwr digon da i fyw ynddi"*

*"Nid yw'r llety mewn safon digon da i fyw ynddi yn fy marn i"*

# MS Properties

## Adborth



■ Positif a  
Niwtral  
■ Negatif

O'r 21 canlyniad a dderbyniwyd

## Sylwadau

*“Teimlo fel rhif, nid fel unigolyn sy'n talu llawer o arian am lety, mae angen trin y cwsmeriaid yn well.”*

*“Mae MS i weld yn swyddfa tai da. Mae'r perchennog yn gyfeillgar ac maen nhw'n datrys problemau yn gyflym.”*


*“Rydym yn talu pris llai dros yr haf oherwydd gwaith adeiladau DYLAI fod yn cael eu gwneud.”*

*“Mae'r cytundeb yn dweud bod y llety wedi ei dodrefnu – cynnwys gwely, desg, cadair, cwpwrdd a bord. Roedd rhaid inni brynu silffoedd ein hun. Roedd rhaid inni brynu popty-ping, tostiwr a lampau.”*



# I Stop Lettings

## Adborth



- Positif a Niwtral
- Negatif

O'r 3 canlyniad a dderbyniwyd


## Sylwadau

*“ I Stop heb os yw'r swyddfa dai fwyaf cyfeillgar yn Aberystwyth.”*

*“£15 am ymchwiliad cefnidr/credyd.”*

# Padarn Lettings

## Adborth



■ Positif a  
Niwtral  
■ Negatif

O'r 17 canlyniad a dderbyniwyd

## Sylwadau

*“Swyddfa tai hyfryd iawn, bob amser yn hawdd delio â nhw. Dim ond canmol fy swyddfa tai a pherchennog tai gallaf wneud”*


*“Swyddfa dai cyfeillgar iawn. Ni roddasant nhw unrhyw bwysau arnom ni. Rwy'n edrych ymlaen at fyw yn fy nhŷ am yr ail flwyddyn.”*

*“Roedd y blaendal yn eitha' dipyn. Hefyd, roedd cymhlethdod ynglŷn â phryd roeddwn i'n cael symud i mewn a symud fy mhethau i mewn i'r tŷ. Heblaw am hyn, rydw i wedi cael ychydig iawn o broblemau gyda Padarn, er weithiau gallan nhw fod yn gyflymach yn datrys problemau cynnal a chadw.”*

*“Maent yn ymwithgar iawn, ac yn aml yn diystyru ein preifatrwydd.”*

# Philip Evans Estates

## Adborth



O'r 42 canlyniad a dderbyniwyd

## Sylwadau


*“Mae'r cysylltiad rhwng perchnogion y tai a'r swyddfa tai yn araf iawn, ond mae problemau cynnal a chadw wedi cael eu datrys yn gyflym iawn (er ni sydd wedi gorfod talu)”*

*“Mae'r swyddfa tai wedi bod yn wych. Os mae unrhyw beth wedi torri neu os ydyn ni wedi cael unrhyw gwestiwn maen nhw wedi bod yn gyfeillgar iawn.”*

*“Oherwydd y pwysau sydd arnom i ddod o hyd i rywle i fyw rydym wedi diweddu yn talu pris uchel iawn am lety, ac eithrio biliau. Er hyn roeddem ni gyda Philip Evans y llynedd ac roedden nhw'n dda iawn ar y cyfan ond peidiwch fod ofn bod yn hy gyda nhw.”*

# Seafront Student

## Adborth



■ Positif a  
Niwtral  
■ Negatif

O'r 5 canlyniad a dderbyniwyd

## Sylwadau

*“Roedden nhw angen ein blaendaliadau yn gynnar iawn (Rhagfyr/Ionawr) sy'n hynod o gynnar ac nid yw'n ystyried pryd mae myfyrwyr yn derbyn eu benthyciadau ariannol. Rhaid talu rhent cyn inni dderbyn ein benthyciadau myfyrwyr sy'n gwneud hi'n anodd iawn i dalu.”*

*“Roedd pawb yn brwydro am yr un tai – a dyma'r broblem. Roedd rhoi ofn ar y myfyrwyr yn amlwg yn dacteg effeithiol.”*

# Swyddfeydd tai eraill

Dim ond ychydig iawn o adolygiadau a dderbyniom ni am y swyddfeydd llety llai ac am y Neddau breifat. Rydym wedi eu cofnodi isod:

## Aled Ellis

“Roedd y cytundeb yn 30 tudalennau o hyd ac nid oeddem wedi ei darllen yn dda iawn. O ganlyniad rhaid inni dalu am y difrod a wnaed i'r teiliau ar y to o ganlyniad i'r tywydd gwael a'r difrod a wnaed i'r pibellau oherwydd yr oerfel.”

(1 adolygiad a dderbyniwyd – 2 adolygiad niwtral)

## The Cambria

“Codwyd pris y rhent o £80 yr wythnos i £100 am y flwyddyn academiaidd nesaf heb unrhyw esboniad ('mae pawb yn gwneud', chwedl nhw). Rhoddwyd pwysau arnom ni i arwyddo'r cytundeb. Safon isel, er bod nhw yn dod i gadw golwg arnom ni bob wythnos.”

“Rydw i wedi siomi yng ngwaith yn lanhawyr, nid ydyn nhw'n gwneud eu swyddi ac yn gadael y lle mor frwnt â llawn llwch. Mae rhaid inni dalu am y gwasanaeth yma, ond nid yw'r gwasanaeth yn ddigon da.”

(4 adolygiad – 2 niwtral – 2 negatif)

# Swyddfeydd tai eraill

## Jim Raw Rees

“Nid oedden nhw'n swyddfa tai i fyfyrwyr felly roedd y pris yn uchel, ar y llaw arall roeddent yn bobl gyfeillgar. Methu dweud unrhyw beth gwael amdany'n nhw.”

“Roedd yr hysbyseb yn dweud bod pris y biliau wedi cynnwys yn y rhent ac eithrio trydan ; roedd popeth yn y tŷ yn rhedeg ar drydan! Doedd dim we yn y tŷ pan symudon ni fewn, roedd rhaid inni dalu BT i ddod i wneud ac wrth gwrs, nid oedd hyn wedi cynnwys yn y pris.”

(3 adolygiad – 2 positif, 1 negatif)

## Lloyd Herbert & Jones

“Mae'r rent yn eithriadol o ddrud yn Aber ac nid oes digon o dai i fyfyrwyr.”

(2 adolygiad – 2 niwtral)

## Look Letting (Westerly Ltd)

“Nid oes ganddyn nhw swyddfa.”

(2 adolygiad – 2 niwtral)

## Gwesty'r Marine

“£600 i gadw'r llety er oedden nhw'n llogi'r lle fel bwthyn gwyliau ac roedd rhaid talu £200 fel blaendal. Byddwn yn rhoi 1/10 iddyn nhw. Roeddent nhw wedi cael gwared â ni pedwar mis yn gynnwys er mwyn gwneud mwy o arian o bobl ar eu gwyliau, ond roeddent nhw wedi trio cadw ein rent!”

(1 adolygiad – 1 negatif)

## Rees Property Management

(1 adolygiad – 1 niwtral)

# Rhentu yn y Sector Breifat

Pris rhent ar gyfartaledd yn y Sector Breifat

**Dim biliau - £81.20** yr wythnos, gyda'r pris rhataf yn **£48.00** a'r pris mwyaf drud yn **£112.00**

**Rhai biliau - £80.58** yr wythnos, gyda'r pris rhataf yn **£50.00** a'r pris mwyaf drud yn **£105.00**

**Yn cynnwys yr holl filiau - £94.33**, gyda'r pris rhataf yn **£70.00** a'r pris mwyaf drud yn **£160.00**

Yn cynnwys biliau:

Allan o'r **116** tŷ yn y sector breifat, mae **51** yn cynnwys dŵr, **15** yn cynnwys cysylltiad rhyngrwyd, **3** yn cynnwys trydan, **13** yn cynnwys nwy a **2** yn cynnwys trwydded deledu.

# Sylwadau ar y Sector Breifat

Allan o'r sylwadau a dderbyniwyd ar y Sector Breifat, roedd:  
**7** yn gadarnhaol, **84** yn ddiuedd a **25** yn negyddol.

## Sylwadau Cadarnhaol:

*“Mae fy llandedi yn dda iawn, mae hi'n ceisio cadw costau'n isel ac i'w weld yn deg iawn. Nid wyf wedi gorfod talu dros yr haf sydd wedi bod yn wych. Hoffwn pe bai pawb yn gallu cael yr un profiad â minnau pan mae hi'n dod i dai!”*

*“Dyn neis, gawn ni weld beth fydd yn digwydd.”*

*“Mae'r rhent yn £355 y mis mewn tŷ 8 ystafell ar y ffrynt, gyda lolfa, 2 gegin (bach!), 3 toiled a 3 cawod. Mae Brain, ein landlord yn deg iawn, i'w weld gyda'i draed ar y ddaear, mae'n hawdd cael gafael arno ac mae'n garedig. Byddwn yn argymhell Brian a'r gariad Jennifer Thomas fel landlordiaid gan nad ydyn nhw'n gwneud i chi ailyrru eich taliadau rhent.”*

*“Mae rhieni ffrind wedi prynu tŷ ac yn ei rentu i ni, proses esmwyth a hawdd iawn.”*

*“Mae'r tŷ yr wyf yn ei rentu yn Waunfawr - Rhoshendre. Rwy'n argymhell mynd yn breifat os yn bosibl. Bu'r landlord yn ddigon parod i ni gadw'r tŷ ar gyfer yr ail a'r drydedd flwyddyn ac nid ydym wedi cael unrhyw broblemau gyda hi na gydag unrhyw beth yn y tŷ. Os oedd unrhyw broblemau, roedd hi wedi ei sortio o fewn wythnos.*

*“Mae fy llandedi yn garedig ac yn gymwynasgar iawn.”*



## Sylwadau Diduedd:

*“Byddwch yn ofalus wrth rentu, mae modd i chi gael eich twyllo hyd yn oed gyda chytundeb. Cofiwch fod dŵr, nwy, trydan, rhyngrwyd, llinell ffon, trwydded deledu (ar ben eich bil ffon symudol, costau teithio, bwyd ayyb) i gyd yn adio i fyny. Y cyngor gorau allai roi yw i chi o leiaf GEISIO cyfaddawdu, e.e. ceisiwch sicrhau'r bil dŵr yn y rhent (am yr un pris neu fymryn yn fwy). Hefyd, gwylwch y cytundebau 12 mis (neu fwy) gyda chwmnïau fel BT, gwnewch yn siŵr eich bod wir ei angen.”*

*“Yn gyffredinol, mae'n debyg fod cystadleuaeth gref yn Aberystwyth am dai, ac mae nifer ohonynt yn swnio'n eithaf drud ar gyfer tai myfyrwyr, yn enwedig yn ystod misoedd yr haf. Byddwn i'n tybio y byddai'r rhent yn eithaf rhesymol yn ystod yr haf gan and oes llawer o fyfyrwyr ar ôl yn Aberystwyth, ond nid yw hynny i'w weld yn effeithio'r pris o gwbl. Nid yw fy nghostau llety presennol yn rhy ddrwg gan ein bod wedi derbyn disgownt oherwydd bod y tŷ angen ei adnewyddu yn ystod yr haf. Ond rwy'n ymwybodol fod pobl eraill yn talu llawer mwy am lety a'r llety hwnnw ddim o safon uchel iawn. Hefyd, dylai'r Brifysgol wneud mwy i ddarparu tai yn ystod yr haf, gan fod nifer o fyfyrwyr sy'n gwneud cyrsiau meistr eisïau aros tan ddiwedd yr haf. Mae'n rhaid i fyfyrwyr sy'n aros yn neuaddau'r Brifysgol yn ystod yr haf adael erbyn diwedd mis Awst, er bod hynny yn gynt o lawer na dyddiad cyflwyno eu traethawd hir.”*

*“Ddim yn cynnwys trydan a nwy - talu ar y metr. Y gost rhwng 3 o bobl yn tua £7 - £10 yr wythnos ar drydan a £5 - £7 yr wythnos ar nwy.”*

*“Landleidi yn neis a chymwynasgar iawn a'r tŷ yn brydferth, ond mae popeth dal yn ddrud.”*

## Sylwadau Negyddol:

“Na, dim ond ei fod mor ddrud am y cyflwr difrifol sydd mewn rhai o'r tai, ond gan fod Aber mor fach, does dim dewis arall. Dwi wedi bod yn gweld ffrindiau ym Mhrifysgol Newcastle, ac maen nhw'n byw mewn fflat newydd sbon, newydd gael ei adnewyddu, gwelyau dwbl ym mhob ystafell, arogl fel paent gwyn ffres. Cegin dur anhygoel, digon o ofod, 3 ystafell ymolchi. Dim ond tua 20 munud o ganol Newcastle ac maen nhw'n talu £80 yr wythnos, sy'n cynnwys dŵr hefyd. Mae hi mor annheg weithiau.”

“Mae'r rhent yn llawer rhy ddrud, does dim peiriant golchi ac mae'r fflat yn fach - dim ond 3 ystafell gyda chegin ac ystafell ymolchi ond roedd rhaid i ni ei gymryd oherwydd doedd unlle arall ar gael. Roedd llawer o'r tai ar gael, ond ddim i fyfyrwyr.”

“Roeddwn yn talu £90 yr wythnos yn ystod fy nhrydedd flwyddyn, a hynny am ystafell bitw mewn fflat oedd heb lolfa gymdeithasol a chegin lle nad oedd lle i swingio cath!! Yn ystod fy ail flwyddyn roeddwn yn talu £70 am dŷ oedd llawer rhy fawr, heb wres canolog ac felly roeddwn yn rhynnu yn ystod y gaeaf a'r gwanwyn!! Mae tai myfyrwyr yn Aberystwyth yn warthus!!!”

“Dim ond drwy siarad â myfyriwr o'r drydedd oedd yn gadael y flwyddyn nesaf y daethom o hyd i dŷ. Mae'r sefyllfa dai yn Aber yn ofnadwy. Roeddwn wedi gwneud cais am lety prifysgol ond nid oeddwn yn llwyddiannus. Wedi bod o gwmpas pob un o'r 15 asiantaeth osod yn Aber, doedd yr un ohonynt yn gallu darparu tŷ i ni. Roedd hyn ym mis Ionawr. Aethom i Alexander's, a ddywedodd y bydd ganddyn nhw restr newydd ar Chwefror y 1af ac i ni ddod yn ôl unrhyw bryd yn ystod y diwrnod gan mai gwneud apwyntiadau i fynd i weld y tai yn unig oedd yn digwydd ar y diwrnod, ac nid rhentu'r tai. Roeddem ni yno am 9YB ar Chwefror 1af ac roedd pob tŷ wedi mynd gan fod myfyrwyr wedi bod yn ciwio y tu allan i'r siop ers 5YB.”

“Bu i ni dderbyn ein rhent am y misoedd cyntaf yn ôl gan fod y landlord wedi bod yn gadael i bobl eraill fyw yno, fel y gwnaethom ni ddarganfod pan symudon ni i mewn a doedd unlle i ni gysgu na rhoi ein pethau.”

“Roedd y ty wedi ei ddifrodi a llanast enfawr wedi ei adael gan y myfyrwyr blaenorol.”

# Arsylwadau

**Fel sy'n amlwg o'r adroddiad, mae sawl thema allweddol yn deillio o'r ymatebion ac mae'n bwysig ein bod yn archwilio'r themâu hynny:**

Mae **Rhenti Uchel** yn un o brif ganolbwyntiau'r arolwg hwn, ac mae'r prisiau sydd wedi cael eu datgelu yn ystod yr ymchwiliad wedi bod yn rhyfeddol. Wrth i ni gymharu'r pris cyfartalog a gafwyd yn arolwg y BBC o £62.01 yr wythnos (gweler Atodiad 1) gyda'r prisiau yn ein harolwg ni, fe welwn fod y prisiau wedi cynyddu'n sylweddol dros y blynyddoedd diwethaf. Rhaid cofio, hyd at y flwyddyn academaidd hon, roedd y galw am dai yn y Sector Breifat yn uchel gan fod y Brifysgol yn derbyn mwy o fyfyrwyr nag oedd hi'n gallu ei ddal. Roedd hyn yn golygu fod y prisiau yn gallu cynyddu. Erbyn hyn rydym ni unwaith eto mewn sefyllfa lle mae mwy o dai nag o fyfyrwyr, a chyda mwy o ddatblygiadau llety myfyrwyr ar y gweill, byddwn ni'n gweld cystadleuaeth yn lleihau prisiau rhent.

Mae rhai o'r landlordiaid yn y sector breifat yn cymharu eu prisiau gyda'r prisiau mae'r Brifysgol yn eu cynnig, ond mae'n bwysig cofio fod y Brifysgol yn cynnig nifer o wasanaethau yn gynwysedig yn y pris, megis diogelwch ar y safle, trydan, dŵr ac yn y blaen. Felly, cwestiwn oedd yn cael ei ailadrodd yn aml yn yr arolwg oedd pam fod rhent mor uchel a pham talu cymaint am gyn lleied?

Y broblem fydd gennym ni os nad yw'r prisiau yn gostwng yw myfyrwyr yn methu fforddio talu'r rhenti uchel, yn enwedig o gofio'r ffordd mae benthyciadau myfyrwyr yn cael eu rhannu yn sgil cyflog y cartref. Felly, bydd hyn yn golygu y bydd myfyrwyr yn mynd i ddyledion enfawr neu yn gorfod dibynnu ar eu rhieni er mwyn talu'r rhent, neu'n gorfod gwneud cais am arian o gronfa wrth gefn y Llywodraeth.

Myfyrwyr yn gorfod talu **rhent haf llawn** er nad ydyn nhw'n cael byw yno. Problem bellach yw'r sylwadau fod rhai landlordiaid yn dwbl-rentu'r ystafell dros yr haf. Rydym ni'n annog myfyrwyr i ofyn pam eu bod yn gorfod talu cymaint a pham nad ydyn nhw'n cael aros yn eu hystafelloedd os ydyn nhw'n talu'r rhent llawn dros yr haf. Mae'n anghyfreithlon i ddwbl-rentu ystafell ac os ydy myfyrwyr yn dod ar draws hyn, rydym ni'n eu hannog i weithredu'n gyfreithiol.

Mae **ffioedd gweinyddu uchel** yn bryder mawr i fyfyrwyr. Mae rhai wedi gorfod talu hyd at £200 o ffioedd gweinyddu, a'r rhan fwyaf o'r amser, nid yw'n bosibl cael yr arian yn ôl. Mae modd cwestiynu hefyd beth yw diben y pris uchel. Fel sy'n amlwg o'r adroddiad hwn, mae cost gweinyddu yn amrywio wrth symud o un asiantaeth i'r llall. Fodd bynnag, mae'r prisiau uchel yn bryder, gan fod disgwyl i fyfyrwyr dalu llawer o arian mewn amser byr. Mae hyn yn gallu bod yn broblem fawr, unai yn eu gadael heb arian am gyfnod hir neu yn eu gorfodi i ddibynnu ar eu rhieni neu eraill i dalu'r costau.

Mae **ffioedd y Cynllun Gwarchod Blaendal** yn bryder. Mae rhai myfyrwyr wedi gorfod talu hyd at £50 y person er mwyn gweld eu blaendal yn cael ei roi'n ddiogel mewn cynllun gwarchod blaendal; cost arall ar ben bob dim. Mae'r cynlluniau gwarchod blaendal sydd ar gael yn dangos nad yw'r broses mor ddrud â hynny. Mae'r cynllun 'mydeposits' yn codi tâl o £30 am y tŷ, neu £17.50 i gofrestru ar lein. Hyd yn oed yn cynnwys TAW, dyma'r pris i ddiogelu blaendal tŷ ac felly ni ddylai'r myfyrwyr fod yn talu mwy na hyn rhyngddyn nhw. Felly mae'n bwysig fod myfyrwyr yn holi ac yn cwestiynu pan fod rhaid iddyn nhw dalu'r pris uchel a pham fod y pris hwnnw yn llawer uwch na'r pris a welir ar wefannau'r cynlluniau.

Mae **cyflwr y tai** yn bryder arall. Mae sylwadau'r myfyrwyr yn dangos nad oedd y tai yn y cyflwr yr oedden nhw wedi ei ddisgwyl ac mae nifer o fyfyrwyr wedi nodi problemau lleithder. Mae lleithder yn fater dadleuol gan fod nifer o dai yn Aberystwyth yn hen ac yn dioddef o awyru gwael. Ond mae hi hefyd yn bwysig cofio rhoi'r gwres ymlaen, agor ffenestri a pheidio gwneud pethau fel sychu dillad ar y rheiddiaduron. Fodd bynnag, pan mae'r myfyrwyr wedi gwneud eu rhan ac mae'r lleithder yn dal i fodoli, mae'n hanfodol fod y landlordiaid yn cadw eu tai i'r safon uchel posibl.

Mae'r prinder tai ar gyfer myfyrwyr yn Aberystwyth, hyd at y flwyddyn yma, wedi golygu fod llety o ansawdd gwael wedi cael bodoli, ac mae myfyrwyr wedi gorfod derbyn y safonau isel er mwyn cael to uwch eu pennau. Rŵan, gyda'r cynnydd mewn nifer llety, ni fydd yr amodau is-safonol yn cael eu caniatáu a bydd nifer y tai gwael yn lleihau.

Roedd **pwysau i arwyddo cytundeb** yn bryder cyffredin, yn yr arolwg hwn ac yn yr adborth a gafwyd yn ystod ymgyrch 'Don't Panic - Fools Rush In' y llynedd. Fe arweiniodd achosion o bobl yn cael gwybod eu bod yn well iddynt lofnodi yn gyflym cyn i bopeth fynd at y duedd i ruthro i arwyddo cytundeb, ac at dderbyn llety israddol. Llwyddodd y Ganolfan Argyfwng Tai yng Ngorffennaf 2012 i ddod o hyd i 170 o ystafelloedd ar y diwrnod cyntaf. Mae hyn yn dangos fod mwy o dai ar gael na'r hyn mae pawb yn ei feddwl a bod y myfyrwyr hynny wnaeth ruthro i mewn i arwyddo cytundebau am dai israddol yn gorfod dioddef y tai hynny nes ddiwedd y flwyddyn academiaidd. Gan fod mwy o dai a mwy o ddewis erbyn hyn, does dim rhaid i'r myfyrwyr deimlo fel eu bod yn gorfod rhuthro i mewn ac nid oes rhaid arwyddo nes eu bod yn hapus 100% gyda'u dewis. Os yw myfyrwyr yn teimlo fel eu bod yn cael eu pwysu i arwyddo ac nad ydynt wedi cael digon o amser i ddarllen yn iawn drwy'r telerau, maen nhw wedi cael cyngor i ystyried opsiynau eraill.

Roedd **pryderon eraill** a godwyd yn cynnwys yr amser oedd hi'n cymryd i wneud gwaith cynnal a chadw neu achosion lle'r oedd gwaith atgyweirio yn cael ei anwybyddu'n gyfan gwbl, cyfathrebu rhwng landlord a thenant, yr angen am well cyfathrebu ar ddyddiadau symud i mewn, gwell eglurhad ar bethau nad oedd yn y cytundeb ac ad-daliad yn rhy araf ar y ffioedd gwarchod blaendal.

# Casgliadau

Mae'r adroddiad hwn wedi amlygu'r angen ar gyfer y Brifysgol a'r Undeb i gyd-weithio i ddarparu mwy o gymorth a hyfforddiant ar gyfer y myfyrwyr wrth ymdrin â'r sector breifat. Y mwyaf mae'r myfyrwyr yn cael eu haddysgu am dai, gwell fydd eu triniaeth yn y farchnad.

Mae safon y llety sydd wedi cael ei bortreadu i ni a'r safon yr ydym wedi ei weld wrth ymchwilio i achosion myfyrwyr wedi bod yn frawychus. Yn aml, byddai wedi bod mor hawdd osgoi'r safonau hyn gyda gwell buddsoddiad a chynhaliaeth mewn tai. Fy mwriad yw sicrhau fod ymgyrchoedd tai yn y dyfodol yn canolbwyntio ar safon y llety a'n bod yn cynnal perthynas waith dda gyda Chyngor Sir Ceredigion a chyda Cyngor Ar Bopeth.

Mae'r rhenti uchel a'r ffioedd eraill sy'n cael eu codi ar fyfyrwyr o bryder mawr imi, yn enwedig mewn cyfnod lle mae costau byw mor uchel. Mae llawer o bwysau ar rieni i gynorthwyo'n ariannol, ac er bod Cronfa Arian Wrth Gefn, mae'r swm mae'r Brifysgol yn ei dderbyn pob blwyddyn yn gyfyngedig, ac nid yw ar gael i bob myfyriwr. Gobeithio, nawr bod y gystadleuaeth wedi lleihau yn sgil llai o fyfyrwyr a mwy o lety, y bydd hyn yn arwain ar renti is a rhenti mwy cystadleuol. Gobeithio hefyd bydd hyn yn arwain at ostyngiad mewn ffioedd gweinyddu a ffioedd eraill sydd wedi wynebu'r myfyrwyr. Rydym ni'n dal i annog myfyrwyr i gwestiynu pob ffi y maen nhw yn ei dalu, gan fynnu cael gwybod am beth yn unon maen nhw'n ei dalu.

Yn y tymor hir, fel y gwelwyd yn y Cynulliad Myfyrwyr diweddar, byddwn ni'n gweithio tuag at ffurfio Asiantaeth Osod yr Undeb, drwy ddechrau edrych ar fath o Undeb Achredu ar gyfer Asiantaethau Gosod. Ar hyn o bryd, er budd tegwch, nid ydym ni'n argymhell un asiantaeth dros y llall. Yr oll y gallwn ei wneud yw rhannu canlyniadau'r arolwg hwn a gadael i'r myfyrwyr ddod i'w casgliadau eu hunain. Rydym ni'n gobeithio y bydd dyfodiad Asiantaeth Osod yr Undeb yn arwain at safonau llety gwell, perthynas waith gwell gyda'r Sector Breifat a phrisiau rhentu is.

Yn ystod ail dymor y flwyddyn academaidd hon, rydym ni'n bwriadu cynnal 'Gwobrau Landlord' er mwyn cymeradwyo'r landlordiaid da ac i roi rhywbeth i landlordiaid eraill anelu ato. Rydym ni'n clywed yn llawer rhy aml yn Aberystwyth am enghreifftiau gwael ac achosion drwg, ac mae hyn yn sefyllfa anodd iawn i fod ynddi.

Yn y pen draw, byddwn yn edrych ar yr holl sylwadau negyddol sydd wedi deillio o'r arolwg hwn a byddwn ni'n gweithio gyda'r awdurdodau lleol, Asiantaethau Gosod, Landlordiaid Preifat a myfyrwyr er mwyn sicrhau bod y pethau hyn yn cael eu datrys. Rydym ni'n croesawu unrhyw ymateb gan Landlordiaid ac Asiantaethau Gosod ar y sylwadau sydd wedi eu codi yn yr arolwg hwn.

Rydym ni bob amser yn agored i ddatblygiadau newydd ac yn barod i gydweithio â landlordiaid ac asiantaethau gosod i addasu i'r hyn y mae'r myfyrwyr ei eisiau. Rydym ni hefyd yn barod i wrando ar eu syniadau ar sut i fynd ati i wella pethau. Mae ein sedd ar y Grŵp Llywio Landlord yn hynod bwysig ar gyfer cynnal y perthnasau hyn, ac rwy'n gobeithio y bydd hynny'n parhau ar gyfer y dyfodol.

WALES

22 August 2011 Last updated at 07:24

### **Wales' university students face rental price hike**

**Students in Wales are facing an increase of up to 11% in rental charges for private university accommodation, according to a survey.**

Four out of the six main towns and cities show students will have to pay more per week on average, Accommodation for Students website say.

The biggest Welsh rise comes in Bangor where last year's average weekly rent has risen from £59.22 to £65.87.

The figures do not include university-owned accommodation.

But Newport students will not pay any more on average than last year while those living in Pontypridd will see a drop.

Luke Young, president of NUS Wales, said a rise in the cost of accommodation was "deeply worrying" at a time when students are already feeling the pinch.

"As the cost of private accommodation rises, students will be actively comparing prices to see what they can afford," he said.

"The immediate concern is that for some students it may mean choosing poor quality housing to keep budgets under control.

"Students are already feeling the pinch, so we need to be aware how price rises will have an impact."

Cardiff students will see an average £3.59 per week rise to £61.07 while those in Swansea will have to pay £2.42 more on average at £60.17.

Students in Aberystwyth will have a very small rise at £62.01 per week with Newport seeing the status quo maintained at £60.93.

Pontypridd rental prices have dropped from an average of £46.15 a week last year to £45.74.

Simon Thompson, co-founder and director of Accommodation for Students, said: "The rent increases for some cities reflect two key factors.

"One is the changing nature of accommodation coming on the market. The trend is for hi-spec, better quality student accommodation, and some locations are leading the way in this area.

"The other key factor is the popularity or desirability of attending some universities that puts pressure on the accommodation available and hence, the charging of higher rents.

"With such financial pressure being put on students with fees, the cost of accommodation is a real factor in university choice."

**'Financial pressure'**He added: "Either way, students who are going through the current clearing process are unlikely to be able to find university accommodation for their first year and so it is really helpful to know precisely how much they will have to pay for private rented accommodation.

"With such financial pressure being put on student with fees, the cost of accommodation is a real factor in university choice."

The increase in fees are mirrored across the UK.

Students in London face the highest rental charges averaging £108.33 per week with Exeter, Uxbridge, Guildford and Cambridge having to pay in excess of £90.

Middlesbrough is the cheapest place to be a student where they are charged an average £43.68.

Sourced: <http://www.bbc.co.uk/news/uk-wales-14590301>

## **P-04-481 Cau'r bwlch ar gyfer disgyblion byddar yng Nghymru**

### **Geiriad y ddeiseb:**

Rydym yn galw ar Gynulliad Cenedlaethol Cymru i annog Llywodraeth Cymru i ddatblygu strategaeth genedlaethol ar gyfer Cau'r Bwlch o ran cyrhaeddiad addysgol rhwng disgyblion byddar a'u cyfoedion.

Mae'r Gymdeithas Genedlaethol i Blant Byddar yng Nghymru yn cyflwyno'r ddeiseb hon heddiw oherwydd ei bod yn Wythnos Ymwybyddiaeth o fod yn Fyddar, ac mae dwy flynedd wedi mynd heibio ers i 55 Aelod Cynulliad roi adduned y byddent yn cymryd camau i Gau'r Bwlch ar gyfer plant byddar.

Er hynny, mae ystadegau Llywodraeth Cymru yn dangos bod bylchau sylweddol o ran cyrhaeddiad rhwng disgyblion byddar a'u cyfoedion. Yn 2012, roedd disgyblion byddar 26 y cant yn llai tebygol o lwyddo i basio 5 TGAU ar radd A\*-C, a 41 y cant yn llai tebygol o lwyddo i basio ar raddau A\*-C yn y pynciau craidd Saesneg, Cymraeg, Mathemateg a Gwyddoniaeth.

Mae ein deiseb fideo yn gofyn i'r arbenigwyr (plant byddar eu hunain) beth sydd bwysicaf yn eu barn hwy. Dywedasant wrthym:

Mae angen cefnogaeth briodol arnom yn yr ysgol a'r coleg  
Mae angen acwsteg dda ym mhob ystafell ddosbarth arnom  
Bydd rhai ohonom yn defnyddio iaith arwyddion. Helpwch ni i annog ein cyfoedion sy'n clywed a'n hathrawon i ddysgu iaith arwyddion.  
Mae arnom angen i fwy o athrawon a disgyblion fod ag ymwybyddiaeth o fod yn fyddar.

Mae gormod o ddisgyblion byddar yn wynebu rhwystrau yn hyn o beth. Mae angen strategaeth genedlaethol er mwyn goresgyn y rhwystrau a Chau'r Bwlch!

### **Gwybodaeth ychwanegol:**

Mae modd llwytho ein deiseb fideo a'r adroddiad sy'n cyd-fynd â hi oddi ar y wefan: [www.ndcs.org.uk/ClosetheGapWales](http://www.ndcs.org.uk/ClosetheGapWales)

Cynhyrchwyd y ddeiseb fideo gyda chymorth wyth o bobl ifanc byddar, ac mae'n disgrifio'r pedwar ffactor pwysicaf i ddisgyblion byddar mewn ysgolion a cholegau, yn eu barn hwy.

Mae'r adroddiad sy'n cyd-fynd â'r fideo yn nodi'r rhwystrau y bydd llawer o ddisgyblion byddar yng Nghymru yn eu hwynebu yn y meysydd hyn. Mae hefyd yn cynnig awgrymiadau ynghylch sut y gallai strategaeth helpu i oresgyn y rhwystrau hyn.

**Prif ddeisebydd:** NDCS

**Ysytirwyd am y tro cyntaf gan y Pwyllgor:** 14 Mai 2013



# Deiseb Caewch y Bwlch

## Cyflwyniad

Cyflwyna Cymdeithas Genedlaethol i Blant Byddar (NDCS) Cymru ein deiseb **Caewch y Bwlch!** i'r Pwyllgor Deisebau ar ran plant a phobl ifanc byddar ledled Cymru. Cyflwynwn y ddeiseb heddiw (Mai 7fed 2013) gan ei bod nid yn unig yn Wythnos Ymwybyddiaeth o Fyddardod ond mae hefyd yn ddwy flynedd ers i 55 allan o'r 60 Aelod Cynulliad cyfredol addo i weithredu i *Gau'r Bwlch* mewn cyrhaeddiad addysg rhwng disgyblion byddar a phlant eraill.

Mae gormod o blant a phobl ifanc byddar yn dal i fethu â chyrraedd eu llawn botensial. Dengys ystadegau Llywodraeth Cymru (a gyhoeddwyd yn gyntaf yn 2009) fod yna bwlch sylweddol mewn cyrhaeddiad rhwng plant byddar a'u cyfoedion ym mhob Cyfnod Allweddol. Yn 2012, yr oedd disgyblion byddar yn 26% yn llai tebygol o gyflawni pum TGAU ar raddau A\*-C, a **41%** yn llai tebygol o gyflawni graddau llwyddo uwch TGAU mewn pynciau craidd Saesneg/Cymraeg, Mathemateg a Gwyddoniaeth.<sup>1</sup>

Nid yw'r bwlch hwn mewn cyrhaeddiad yn dderbyniol. Geilw ein deiseb am strategaeth i fynd i'r afael â'r rhwystrau y mae plant a phobl ifanc byddar yn eu hwynebu yn yr ysgol a'r coleg ac i **Gau'r Bwlch!**

Mae NDCS Cymru wedi gofyn i'r arbenigwyr - y bobl ifanc byddar eu hunain - i ddweud wrthym ba bwyntiau allweddol sydd angen cael eu cynnwys mewn strategaeth. Nododd ein

harbenigwyr bedwar pwynt allweddol, ac fe'u hamlinellir yn ein fideo amgaeedig:

1. Mae angen cefnogaeth addas arnom yn yr ysgol a'r coleg.
2. Rydym eisiau i bob ystafell ddsbarth feddu ar acwsteg dda.
3. Mae rhai ohonom ni'n defnyddio iaith arwyddion. Helpwch ni i annog ein cyfoedion a'n hathrawon sy'n clywed i ddysgu arwyddo.
4. Rydym eisiau i fwy o athrawon a disgyblion fod yn fwy ymwybodol o fyddardod

Wyneba gormod o blant a phobl ifanc byddar rwystrau yn yr agweddau pwysig hyn o'u bywydau ac, felly'n methu â chyrraedd eu llawn botensial yn yr ysgol neu'r coleg.

Rhydd y papur byr hwn fwy o wybodaeth gefndir ar y materion a nodwyd gan yr arbenigwyr yn ein fideo. Amlinella'r gwahanol fathau o rwystrau y mae pobl ifanc byddar yn eu hwynebu yn y rhannau hyn o'u bywydau ac awgryma sut i ddatblygu strategaeth i fynd i'r afael â'r rhwystrau hyn.



***I wyllo ein fideo ac am  
wybodaeth bellach, ymwelwch â  
[www.ndcs.org.uk/ClosetheGap](http://www.ndcs.org.uk/ClosetheGap)  
Wales***

# 1. Mae angen cefnogaeth addas arnom yn yr ysgol a'r coleg

**Defnyddia pob un o'r bobl ifanc byddar sydd yn ein fideo wahanol fathau a lefelau o gefnogaeth, ond yr oedd pob un ohonynt am ddweud wrthym ba mor bwysig mae eu cefnogaeth iddynt.**

*Rydw i eisiau dangos i Lywodraeth Cymru ba mor anodd yw hi yn yr ysgol i bobl ifanc byddar. - Jodie*

*Rydw i eisiau dwed wrth y gwleidyddion pam bod angen gwell cyfleusterau ar bobl fyddar mewn ysgolion yng Nghymru. - Daniyaal*

## Y cefndir

Mae pob plentyn byddar yn wahanol. Defnyddia rhai plant a phobl ifanc byddar ddyfeisiau clywed cynorthwyol fel teclynnau clyw neu fewnblaniadau yn y cochlea, tra nad yw eraill. Y mae rhai plant yn llefaru ac yn darllen gwefusau, defnyddia rhai iaith arwyddion a gall rhai ohonynt ddefnyddio cymysgedd o'r holl ddulliau hyn.

Gan nad oes ysgolion arbenigol ar gyfer disgyblion byddar yng Nghymru, mynychu rhai plant ysgolion arbenigol dros y ffin, ond mynychu'r mwyafrif llethol ysgolion prif ffrwd. Mynychu rhai ysgolion prif ffrwd sydd â chanolfan adnoddau arbenigol ar gyfer disgyblion

byddar, tra gall eraill fod yr unig blentyn byddar yn yr ysgol gyfan.

Effeithia byddardod ar blant a phobl ifanc mewn gwahanol ffyrdd. O ganlyniad, mi fydd y cymorth sydd ei angen ar ddisgybl byddar yn dibynnu ar ei anghenion unigol. Gall fod angen ystod o wahanol fathau o gymorth ar blant byddar. Dylai'r mathau canlynol o gymorth fod ar gael:

- Athro Plant Byddar. Arbeniga'r gweithwyr proffesiynol hyn mewn sicrhau bod y cwricwlwm yn hygyrch i blant a phobl ifanc byddar. Gallant roi cyngor i athrawon prif ffrwd a gallant hefyd ddarparu cymorth uniongyrchol i blentyn byddar.
- Therapydd lleferydd ac iaith. Gall y gweithwyr proffesiynol hyn helpu plant a phobl ifanc byddar sydd efallai yn wynebu anawsterau mewn datblygiad lleferydd oherwydd bod ganddynt gysylltiad cyfyngedig â sain.
- Technoleg. Dibynna llawer o blant byddar ar y seiniau y maent yn eu clywed i'w helpu i gyfathrebu. Gall offer clywed cynorthwyol, fel teclynnau radio neu systemau maes sain fod yn bwysig i'r disgyblion hyn.
- Gweithiwr Cymorth Cyfathrebu/Dehonglydd. Mae'r gweithwyr proffesiynol hyn yn dra gwahanol i Athro Plant Byddar. Nid ydynt yn weithwyr addysg proffesiynol ond yn hytrach arbenigant mewn cyfieithu/dehongli'r hyn a ddywedir yn yr ystafell ddosbarth a gallant fod yn hanfodol bwysig i bobl ifanc sydd yn defnyddio iaith arwyddion.

- Cymerwyr nodiadau. Mae angen cymerwr nodiadau ar nifer o bobl ifanc (sydd) yn y coleg. Mae hyn oherwydd nad yw'n bosib darllen gwefusau/gwyllo dehonglydd a chymryd nodiadau ar yr un pryd.

## Beth yw'r rhwystrau?

Nid yw plant a phobl ifanc byddar yn aml yn derbyn y cymorth sydd ei angen arnynt yn yr ysgol neu'r coleg. Heb gymorth addas, wyneba plant a phobl ifanc byddar rwystrau sylweddol wrth ymgymryd â'r cwricwlwm ac wrth gyflawni eu llawn botensial.

Gall cael hyd i gymorth fod yn anodd yng Nghymru am nifer o resymau. Yn gyntaf, yn aml gweithia Athrawon Plant Byddar hyd eu heithaf yn barod a dim ond nifer fach ohonynt sydd. Prydera NDCS Cymru fod y sefyllfa yn debygol o waethygu wrth i awdurdodau lleol wynebu penderfyniadau cyllidebol anodd.

Yn ail, gall awdurdodau lleol gael trafferth recriwtio Gweithwyr Cymorth Cyfathrebu, yn enwedig rhai sydd â lefel addas o iaith arwyddion. Dangosodd arolwg gan Y Consortiwm Ymchwil i Addysg Fyddar (CRIDE) yn 2012 mai dim ond 6.5 Gweithiwr Cymorth Cyfathrebu cyfwerth ag amser llawn sydd mewn swydd ledled y dywysogaeth.<sup>ii</sup> Nid yw'n anghyffredin i blentyn byddar dderbyn cymorth gan Weithiwr Cymorth Cyfathrebu, neu hyd yn oed gan gynorthwydd addysgu, sydd â lefel sylfaenol iawn o iaith arwyddion. Prydera NDCS Cymru am yr effaith y caiff hyn ar fynediad y disgybl i'r cwricwlwm a'i allu i ddatblygu ei ddewis iaith.

Dylai fod gan blant a phobl ifanc byddar yr hawl i gael cynllun personol sy'n amlinellu eu hanghenion cymorth yn yr ysgol (naill ai Cynllun Addysg Unigol

neu Ddatganiad, yn dibynnu ar lefel eu hangen). Serch hynny, yn ymarferol, nid yw nifer fawr o blant a phobl ifanc byddar yn derbyn cynlluniau o'r fath, neu os ydynt, mae'r cynlluniau ag eisiau'r manylion penodol am y lefel o gymorth sydd eu hangen arnynt. Mae NDCS Cymru yn awyddus i sicrhau bod unrhyw newidiadau sy'n dod o ganlyniad i'r diwygiad ADY arfaethedig, yn gweithio'n effeithiol i blant byddar a'u teuluoedd. Serch hynny, gan ein bod ni wedi gweld y cynigion cyfredol, pryderwn y gall y problemau hyn barhau o dan y system newydd. Yn benodol yr ydym yn awyddus i sicrhau o dan y system newydd y:

- Datgenir yn glir bod gan blant a phobl ifanc byddar yr hawl i gael cynllun cymorth.
- Adwaenir gweithwyr proffesiynol arbenigol addas i gyfrannu at gynllun cymorth plentyn byddar.
- Darperir gwybodaeth glir yn y cynllun cymorth am y math a'r lefel o gymorth y derbynia'r plentyn neu'r person ifanc.
- Caiff plant a phobl ifanc byddar a'u teuluoedd hawliau addas i herio'r cymorth a dderbynnir ganddynt. Yn ein barn ni, nid yw sicrhau bod y math yma o hawliau ar waith o reidrwydd yn arwain at gynnydd yn y nifer o apeladau, ond yn hytrach yn annog cydymffurfiaeth â'r Cod Ymarfer.

Mae gennym bryderon hefyd parthed sicrhau cymorth arbenigol ar gyfer myfyrwyr ôl-16 yng Nghymru. Mae Llywodraeth Cymru yn datganoli'r cyllid sydd ar gael ar gyfer lleoliadau mewn colegau arbenigol i awdurdodau lleol fel rhan o'r Grant Cynnal Refeniw. Yn ogystal, mae cyllid ar gyfer darparu cymorth i fyfyrwyr mewn colegau prif ffrwd, a ddyrannwyd gynt yn ganolog trwy'r Gronfa Atodol i ddysgwyr ag

anawsterau a/neu anabledau dysgu, bellach am gael ei ddatganoli i Golegau. Er nad yw NDCS Cymru yn erbyn datganoli'r cyllid hwn, argymhellwn yn gryf fod mesurau monitro yn cael eu rhoi ar waith i sicrhau fod awdurdodau lleol a Cholegau yn cwrdd â'u cyfrifoldebau newydd parthed hyn.

Prydera NDCS Cymru hefyd a yw ysgolion yn ddigon atebol mewn perthynas â'r cymorth a gynigiant i fyfyrwyr byddar neu beidio. Yn wir, o dan system arolygu gyfredol Estyn, mae yna ddiffyg gwybodaeth a phwyslais ar anghenion addysgol arbennig.

## Awgrymiadau

- Bod Llywodraeth Cymru yn adolygu a yw argaeledd a set sgiliau gweithwyr proffesiynol arbenigol allweddol (fel y'u hamlinellir uchod) yn addas i anghenion y boblogaeth fyddar ifanc yng Nghymru.<sup>iii</sup> Gall adolygiad o'r fath ystyried a oes angen safonau cenedlaethol a chyfleoedd hyfforddi pellach er mwyn gwella argaeledd y math hwn o gymorth.
- Bod Llywodraeth Cymru yn gweithio gydag NDCS Cymru i leddfu ein pryderon parthed Diwygiadau ADY. Yn benodol, croesawn sicrhau o ran yr hawl apelio a datblygiad llwybrau anabled penodol. Yn wreiddiol, cynigwyd bod cyfarwyddyd penodol yn cael ei greu i amlinellu llwybrau atgyfeirio ac i egluro sut y byddai'r system newydd yn berthnasol i grwpiau gwahanol o blant a phobl ifanc. Deallwn y gall y cynigion hyn nawr gael eu hepgor. Anogwn Lywodraeth Cymru i fwrw ymlaen â chynhyrchu llwybr darpariaeth i blant a phobl ifanc byddar, fel y

bo eglurder ynghylch y math o gymorth y gall fod ei angen ar blant byddar yn ogystal â pha weithiwyd proffesiynol a ddylai gael eu cynnwys wrth asesu eu hanghenion.

- Bod Llywodraeth Cymru, drwy ddatganoli cyllid i gefnogi myfyrwyr ôl-16 sydd ag anghenion arbennig, yn rhoi mesurau monitro ar waith er mwyn sicrhau bod awdurdodau lleol a cholegau yn cwrdd â'u cyfrifoldebau i gefnogi'r myfyrwyr hyn yn briodol.
- Bod Llywodraeth Cymru yn annog Estyn i ystyried sut y gall arolygiadau ysgolion lle mae disgyblion byddar wedi'u cofrestru, ac arolygiadau gwasanaethau cymorth arbenigol yr awdurdodau lleol gynnwys archwiliad gwell i'r cymorth a ddarperir i blant a phobl ifanc byddar.

## 2. Rydym eisiau i bob ystafell ddosbarth feddu ar acwsteg dda.

**Defnyddia'r rhan fwyaf o'r arbenigwyr yn ein fideo declynnau clyw, mewnbaniadau yn y cochlea neu declynnau radio. Siaradasent am ba mor anodd y gall hi fod i ganolbwyntio mewn ystafelloedd dosbarth swllyd.**

*Mewn ystafell ddosbarth lle mae'r acwsteg yn wael, mae'n anodd iawn deall yr athro oherwydd mae llawer o sŵn cefndir - cadeiriau yn crafu ar y llawr, plant yn siarad - ac mae popeth yn dod ata i, i gyd yr un pryd - Kurt*

### Y Cefndir

Defnyddia llawer o blant a phobl ifanc byddar y sain yr ydynt yn ei glywed i'w helpu i ddeall yr hyn sy'n cael ei gyfathrebu. Gall hwn fod yn sgil anodd ei ddatblygu, ac yn gofyn am gryn ganolbwyntio. Mewn ystafelloedd lle mae'r acwsteg yn wael, gall fod yn anos fyth i blant byddar ddefnyddio'r sain.

Dylid cydnabod er bod llawer o blant yn defnyddio dyfeisiau clywed cynorthwyol fel teclynnau clyw neu fewnbaniadau yn y cochlea, nid yw'r dyfeisiau hyn yn "gwella" byddardod. Nid ydynt yn adfer lefelau clywed "nodweddiadol". Mewn gwirionedd, mewn ystafelloedd lle mae acwsteg wael, gallant fod yn ddiwerth. Mae teclynnau clyw yn dueddol o ehangu bob sain, ac mae pobl ifanc wedi dweud wrthym eu bod yn diffodd eu teclynnau mewn ystafelloedd sydd ag

acwsteg wael. Mae dyfeisiau technolegol eraill, fel systemau maes sain, hefyd angen amgylchedd sydd ag acwsteg dda i weithio'n effeithiol.

Dylid nodi fod acwsteg dda hefyd yn bwysig i lawer o grwpiau eraill o ddysgwyr sy'n agored i niwed, gan gynnwys yr 80% o blant sydd yn dioddef o fyddardod dros dro o ganlyniad i glust ludiog.<sup>iv</sup>

Mae NDCS Cymru wedi bod yn ymgyrchu ynghylch acwsteg mewn ysgolion, gyda chefnogaeth gan ddeg o fudiadau eraill,<sup>v</sup> ac yr ydym yn falch bod y mater wedi derbyn cefnogaeth drawsbleidiol. Mae cyfanswm o 39 o Aelodau'r Cynulliad wedi dangos eu cefnogaeth dros acwsteg dda mewn adeiladau ysgol, coleg ac ysgolion meithrin.<sup>vi</sup>

### Beth yw'r rhwystrau?

Er bod rheoliadau adeiladu yn mynnu bod rhaid i adeiladau ysgol newydd gyflawni safon acwsteg ofynnol, yn aml anwybyddir y safonau hyn gan nad oes gofynion gorfodol i ddangos cydymffurfiaeth â'r safonau.

Amlygodd ein harolwg o awdurdodau lleol yng Nghymru mai dim ond 11% o'r 262 o ysgolion a adeiladwyd rhwng 2003 a 2010 oedd wedi eu profi i weld a oeddynt yn cydymffurfio â'r safonau acwsteg a dim ond 31% ohonynt oedd wedi ymgynghori ag acwstegydd.<sup>vii</sup>

Mae NDCS Cymru yn falch o weithio gyda Llywodraeth Cymru mewn perthynas ag ysgolion a adeiladwyd fel rhan o'r Rhaglen Ysgolion ar gyfer yr 21ain Ganrif. Bellach mae ysgolion a adeiladwyd o dan y rhaglen hon o dan rwymedigaeth gytundebol i ddangos cydymffurfiaeth â safonau acwsteg. Credwn fod hyn yn gam cadarnhaol ymlaen at sicrhau bod acwsteg ar yr agenda. Serch hynny, yr ydym yn

ymwybodol y bydd hyn yn effeithio ar ysgolion a ariennir yn y modd hwn yn unig, a hefyd yn ymwybodol i'n hymchwil ddatgelu amharodrwydd ymhlith swyddogion i gwrdd â safonau mewn achosion nas ystyriwyd yn orfodol.

Gan y datganolid rheoliadau adeiladu bellach, anogwn ar Lywodraeth Cymru i fynd cam ymhellach. Mi fydd sicrhau y gosodir yr un gofyniad mewn rheoliadau statudol yn golygu y gall bob ysgol *swnio'n well* heb ystyried sut y'u hariennir.


Yr ydym hefyd yn ymwybodol o gamau y gellir eu cymryd i wella'r acwsteg mewn adeiladau ysgol, coleg ac ysgolion meithrin presennol, a chroesawn y cyfle i weithio gyda Llywodraeth Cymru i hyrwyddo ein pecyn cymorth i ysgolion sydd eisiau gwella'r acwsteg yn eu hadeilad.

### Awgrymiadau

- Bod Llywodraeth Cymru yn defnyddio ei hawdurdod dros reoliadau adeiladu i gryfhau safonau acwsteg. Sicrha hyn ei bod yn ofynnol i bob adeilad ysgol, coleg ac ysgol meithrin ddangos cydymffurfiaeth â'r safonau - heb ystyried sut y'u hariennir.
- Bod Llywodraeth Cymru yn gweithio gydag NDCS Cymru i godi ymwybyddiaeth ymhlith prifathrawon am rai o'r mesurau y gallant eu gweithredu er mwyn gwella'r acwsteg mewn adeiladau ysgol presennol.

## 3. Mae rhai ohonon ni'n defnyddio iaith arwyddion. Helpwch ni i annog ein cyfoedion a'n hathrawon sy'n clywed i ddysgu arwyddo.

**Cyfathreba ein grŵp o arbenigwyr mewn ffyrdd gwahanol - lleferydd, iaith arwyddion neu gymysgiad o'r dda.**



*Hoffwn annog myfyrwyr sy'n clywed i gymryd gwersi arwyddo, a fydd yn rhoi sgil ychwanegol iddynt i gynnwys yn ei CV. - Gwion*

### Y cefndir

Cyfathreba plant byddar mewn gwahanol ffyrdd. Defnyddia rhai pobl ifanc byddar iaith arwyddion fel eu hiaith gyntaf a'u dewis iaith.

Cydnabuwyd iaith Arwyddion Prydain (IAP) yn iaith swyddogol yng Nghymru yn Ionawr 2004. Mae'n dra gwahanol i Saesneg. Mae'n iaith ynddi'i hun gyda'i geirfa a'i chystrawen ramadegol ei hun. I rai pobl fyddar, mae IAP hefyd yn gysylltiedig iawn â diwylliant Byddar. Gall nifer fawr o bobl ifanc byddar, nad yw eu hiaith gyntaf yn iaith arwyddion, ddewis defnyddio iaith arwyddion yn gymdeithasol. I'r bobl ifanc yma, gall iaith arwyddion gynnig ffordd i ymgysylltu â hunaniaeth fyddar a/neu'r gymuned fyddar.

Cyfathreba rhai plant a phobl ifanc byddar trwy ddefnyddio Saesneg / Cymraeg â Chymorth Arwyddion, sydd

yn defnyddio arwyddion IAP i gyd-fynd â chystrawen ramadegol yr iaith Saesneg neu'r Gymraeg.

### Beth yw'r rhwystrau?

Gan nad oes un ysgol i ddisgyblion byddar yng Nghymru, mynychu'r mwyafrif llethol o ddisgyblion byddar ysgolion prif ffrwd neu ysgolion prif ffrwd sydd â chanolfan adnoddau arbenigol. Gall cael eu hamgylchynu gan ddisgyblion sy'n clywed olygu fod pobl ifanc byddar yn agored i deimladau o unigedd.

Mi fydd sicrhau bod pobl ifanc eraill yn yr ysgol yn gallu defnyddio iaith arwyddion yn helpu pobl ifanc byddar sy'n arwyddo i deimlo eu bod yn cael eu cynnwys mwy. Mae hefyd yn arfer da i staff heblaw athrawon cymorth arbenigol ddysgu ychydig o iaith arwyddion sylfaenol. Ni fwriedir i hyn gymryd lle'r angen am athrawon cymorth arbenigol, gan fod lefel uchel o iaith arwyddion yn angenrheidiol er mwyn cynnig cymorth i ddisgybl IAP (gweler adran un o'r papur hwn). Y syniad yw sicrhau bod pobl ifanc fyddar yn cael eu cynnwys ymhob agwedd ar fywyd ysgol.

### Awgrymiadau

- Argymhella NDCS Cymru i Lywodraeth Cymru annog mwy o athrawon a disgyblion i ddysgu arwyddo.
- Byddai NDCS Cymru yn croesawu adolygiad o argaeledd cyrsiau IAP yng Nghymru ac ystyriaeth o sut y gellir gwella mynediad at y cyrsiau hyn.

## 4. Rhaid i fwy o athrawon fod yn fwy ymwybodol o fyddardod.

**Golyga ymwybyddiaeth o fyddardod ddeall pa mor anodd y gall cyfathrebu fod i bobl fyddar a gwybod rhai ffyrdd syml ond effeithiol o sicrhau bod pobl fyddar yn cael eu cynnwys mewn sgysiau a gweithgareddau. Tynnodd ein harbenigwyr sylw at ba mor bwysig yw hyn i bob plentyn a pherson ifanc byddar.**

*Pe bawn i'n gallu newid un peth i wneud yr ysgol yn well i bobl ifanc yng Nghymru, buaswn i'n dweud wrth bobl sy'n gallu clywed am arafu ac siarad yn glir i bobl fyddar -  
Jodie*

*Hoffwn wneud pobl yn ymwybodol fy mod i'r un peth â phawb arall, dyw fod yn fyddar ddim yn beth mawr -  
Ryan*

### Y cefndir

Ledled y DU, dywed plant byddar wrthym yn aml eu bod angen i fwy o athrawon a disgyblion ddeall sut beth ydy bod yn fyddar fel y gallant gyfathrebu yn haws â phawb yn yr ysgol.

Gall diffyg ymwybyddiaeth o fyddardod effeithio ar allu plentyn i gymryd rhan mewn gwersi. Er enghraifft, os nad yw athro'n wynebu'r dosbarth wrth iddo ei

annerch, mi fydd plant a phobl ifanc byddar yn colli'r hyn a ddywedir.

Mae diffyg ymwybyddiaeth o fyddardod hefyd yn rhwystr i blant a phobl ifanc fyddar mewn sefyllfaoedd cymdeithasol yn yr ysgol. Er enghraifft, efallai y bydd yn anodd darllen gwefusau mewn trafodaeth grŵp ac o ganlyniad, mi fydd pobl ifanc fyddar yn colli ychydig o'r wybodaeth y bydd eraill yn ei chlywed. Hefyd, heb ymwybyddiaeth briodol, gall gemau fel pêl-droed fod yn anodd os nad yw'r person ifanc yn gallu clywed y cyfarwyddiadau neu chwiban y dyfarnwr.

### Beth yw'r rhwystrau?

Mewn amgylchedd lle mae diffyg ymwybyddiaeth o fyddardod ymhlith yr athrawon a'r disgyblion, gall plant a phobl ifanc byddar wynebu anawsterau tu mewn a thu allan i'r ystafell ddosbarth. Fe arwain hyn at adael pobl ifanc fyddar yn agored i gyrhaeddiad addysgol isel, i deimladau o unigedd ac i gael eu bwlio.

Weithiau, nid yw ymwybyddiaeth o fyddardod yn ymwneud dim ond â chynnwys plentyn byddar, gall hefyd olygu cydnabod bod y plentyn yn fyddar yn y lle cyntaf. Defnyddia nifer fawr o bobl ifanc fyddar ddyfeisiau clywed cynorthwyol a mynychant ysgol brif ffrwd lle gallant fod yr unig ddisgybl byddar ar y gofrestr. Yn gyffredinol, mae yna ddiffyg ymwybyddiaeth o'r ffaith nad yw dyfeisiau clywed cynorthwyol fel teclynnau clyw neu fewnblaniadau yn y cochlea yn adfer lefelau clywed "nodweddiadol". Felly, yn aml ni chydabyddir bod angen unrhyw gymorth cyfathrebu ychwanegol ar blentyn byddar.

Dylid nodi y bydd 80% o blant yn dioddef byddardod dros dro o ganlyniad i glust ludiog, ryw bryd cyn iddynt gyrraedd deg oed.<sup>viii</sup> I nifer fawr o blant, gall y cyfnod o fyddardod dros dro

ddigwydd mwy nag unwaith neu'n barhaus, a gall effeithio'n ddifrifol ar eu gallu i gymryd rhan yn y gwersi. Buasai sicrhau fod athrawon yn ymwybodol o glust ludiog ac o awgrymiadau sylfaenol ynghylch ymwybyddiaeth o fyddardod helpu i leihau effaith clust ludiog ar y plant hyn. Gyda lefel o ymwybyddiaeth uwch, gall athrawon chwarae rôl i helpu adnabod plant sydd yn dioddef nam ar y clyw. Yn aml, mae'n bosib cymysgu nam ar y clyw â swildod, rhychwant sylw byr neu gamymddwyn cyffredinol.

### Awgrymiadau

- O ystyried yr amllder uchel o fyddardod dros dro a'r ffaith bod y mwyafrif helaeth o blant byddar yng Nghymru yn mynychu ysgolion prif ffrwd, credwn ei bod yn hanfodol bod athrawon yn derbyn hyfforddiant ymwybyddiaeth o fyddardod ar lefel sylfaenol o. Argymhellwn fod Llywodraeth Cymru yn ystyried cynnwys gwybodaeth sylfaenol ar fyddardod fel rhan o gyrsiau HCA, ANG neu'r Radd Meistr mewn Addysg newydd. Y mae NDCS Cymru wedi gweithio ar rai adnoddau i athrawon newydd gymhwyso gyda Chyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr a chroesawn y cyfle i ddarparu adnoddau a gwybodaeth debyg trwy Gymru gyfan.
- Mae NDCS Cymru yn siomedig gan nad yw'r hyfforddiant newydd ar gyfer CADY (Cydlynwyr Anghenion Dysgu Ychwanegol) a ddatblygwyd fel rhan o'r diwygiadau ADY, yn cynnwys unrhyw wybodaeth ar fyddardod, yn ôl y deallwn. Argymhellwn yn gryf i Lywodraeth Cymru ail ystyried y mater hwn. Chwery CADY rôl bwysig fel cyswllt



canolog ar gyfer anghenion  
addysgol arbennig mewn ysgol.  
Mae'n hanfodol bwysig eu bod yn  
ymwybodol o'r ffaith y gall pobl  
ifanc fyddar wynebu rhwystrau  
sylweddol, a'u bod yn gwybod sut  
i gael gwybodaeth bellach i  
sicrhau bod yr ysgol yn cynnwys  
y person ifanc byddar.

- Mae NDCS Cymru wedi gweithio gyda phobl ifanc byddar i ddatblygu ein hadnoddau "Look Smile Chat" sydd ar gael ledled y DU. Bwriad yr adnoddau hyn yw helpu ysgolion i ddysgu eu disgyblion am ymwybyddiaeth o fyddardod. Croesawn y cyfle i weithio gyda Llywodraeth Cymru i annog ysgolion trwy Gymru gyfan i ddefnyddio'r adnoddau hyn.

## Gwybodaeth bellach

Diolch am ddarllen y papur hwn ac am wyllo ein deiseb fideo. Gobeithiwn y bydd Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda ni i weithredu yn erbyn y rhwystrau hyn i blant a phobl ifanc trwy Gymru gyfan.

Am wybodaeth bellach cysylltwch â [campaigns.wales@ndcs.org.uk](mailto:campaigns.wales@ndcs.org.uk), neu ffoniwch 029 20373474.

**Diolch.**

# Atodiad

## Ystadegau'r bwllch mewn cyrhaeddiad

### Cyfnod Allweddol 4

Mae'r data ar lefelau cyrhaeddiad plant byddar ar gael ers 2005. Dengys fod y bwllch cyrhaeddiad rhwng disgyblion byddar a'u cyfoedion yn eithaf cyson. Er i'r bwllch leihau'n sylweddol yn 2011, yr ydym yn siomedig bod y bwllch hwn wedi lledu unwaith eto. Yn 2012, yr oedd disgyblion byddar 26% yn llai tebygol o gyflawni pum TGAU gradd A\*-C na phlant eraill.

Yr ydym hyd yn oed yn fwy pryderus bod y bwllch cyrhaeddiad ar gyfer graddau llwyddo uwch mewn pynciau craidd Saesneg/Cymraeg, Mathemateg a Gwyddoniaeth wedi lledu i 41%. Dyma'r ffigur uwch a gofnodwyd ers dechrau cadw cofnodion.

Blwyddyn	Bwllch cyrhaeddiad ar gyfer cyflawni 5 TGAU gradd A*-C (%)	Bwllch cyrhaeddiad ar gyfer cyflawni gradd A*-C mewn Saesneg/Cymraeg, Mathemateg a Gwyddoniaeth (%)
2012	26	41
2011	12	19
2010	29	33
2009	15	13
2008	30	27
2007	27	27
2006	26	38
2005	29	36

### Cyfnodau Allweddol 1-3

Yr ydym yn falch ein bod ni wedi gweld peth gwelliant dros y blynyddoedd diwethaf mewn cyrhaeddiad disgyblion byddar yng Nghyfnodau Allweddol 1-3. Ond parhawn i bryderu bod y bwllch

cyrhaeddiad dal yn annerbyniol o uchel i ddisgyblion byddar ym mhob lefel Cyfnod Allweddol. Yn 2012:

- Yr oedd disgyblion byddar yng Nghyfnod Allweddol 1 yn 15% yn llai tebygol o gyflawni'r Dangosydd y Cyfnod Sylfaen
- Yr oedd disgyblion byddar yng Nghyfnod Allweddol 2 yn 15% yn llai tebygol o gyflawni'r Dangosydd Pynciau Craidd
- Yr oedd disgyblion byddar yng Nghyfnod Allweddol 3 yn 19% yn llai tebygol o gyflawni'r Dangosydd Pynciau Craidd

#### \* Sylwer:

Dengys yr holl ffigurau pa mor debygol yw hi (fel canran) na fydd plant byddar yn llwyddo cystal â'u cyfoedion sy'n clywed.

Y mae mathau penodol o anghenion addysgol arbennig (AAA) heblaw am fyddardod wedi eu heithrio'n benodol o'r data er mwyn hwyluso'r cymharu. Cymherir cyrhaeddiad disgyblion byddar sydd heb unrhyw AAA ychwanegol â lefelau cyrhaeddiad disgyblion nad ydynt wedi cofrestru AAA.

Cyfeirir "Dangosydd y Cyfnod Sylfaen" at gyrraedd y lefel disgwylidig neu uwch mewn Saesneg/Cymraeg, Datblygiad Personol a Chymdeithasol a Mathemateg.

Cyfeirir "Dangosydd Pynciau Craidd" at gyrraedd y lefel disgwylidig neu uwch mewn Saesneg neu Gymraeg (iaith gyntaf), Mathemateg a Gwyddoniaeth yn gyfunol. I'r rhan fwyaf o ddisgyblion, disgwylir iddynt gyrraedd lefel 4 yng Nghyfnod Allweddol 2 a lefel 5 yng Nghyfnod Allweddol 3.

Ceir gwybodaeth fwy manwl am y data cyrhaeddiad hwn yn [www.ndcs.org.uk/ClosetheGapWales](http://www.ndcs.org.uk/ClosetheGapWales).

---

## Cyfeiriadau

<sup>i</sup> Am wybodaeth bellach am ddata cyrrhaeddiad, ymwelwch â [http://www.ndcs.org.uk/professional\\_support/national\\_data/education\\_data\\_in.html](http://www.ndcs.org.uk/professional_support/national_data/education_data_in.html).

<sup>ii</sup> Ceir adroddiad CRIDE (Consortiwm Ymchwil i Addysg Fyddar) ar arolwg 2012 ar ddarpariaeth addysgol i blant byddar yng Nghymru yn [http://www.ndcs.org.uk/professional\\_support/national\\_data/uk\\_education.html](http://www.ndcs.org.uk/professional_support/national_data/uk_education.html).

<sup>iii</sup> Mae data ar y niferoedd o weithwyr proffesiynol arbenigol sy'n gweithio ledled Cymru ar gael o'r Consortiwm Ymchwil i Addysg Fyddar a gellir defnyddio'r data hwn mewn adolygiad o'r math.

<sup>iv</sup> Canllawiau Clinigol, Sefydliad Cenedlaethol dros lechyd a Rhagoriaeth Glinigol (2008), *Surgical management of otitis media with effusion in children*, tudalen 1, adnod 1.1.

<sup>v</sup> Mae'r mudiadau hyn yn cynnwys: Action on Hearing Loss Cymru, Afasic Cymru, Awtistiaeth Cymru, Cymdeithas Brydeinig Athrawon Pobl Fyddar, Deaf Access Cymru, Cymdeithas Syndrom Down, Cymdeithas Genedlaethol Awtistiaeth Cymru, Cymdeithas y Byddar Gogledd Cymru, RNIB Cymru, SENSE Cymru.

<sup>vi</sup> Am wybodaeth bellach, ymwelwch â [http://www.ndcs.org.uk/about\\_us/campaign\\_with\\_us/wales/sounds\\_good/index.html](http://www.ndcs.org.uk/about_us/campaign_with_us/wales/sounds_good/index.html)

<sup>vii</sup> NDSCS Cymru (Rhagfyr 2011) *Let's Make a New Year's Resolution that Sounds Good!*

<sup>viii</sup> Canllawiau Clinigol, Sefydliad Cenedlaethol dros lechyd a Rhagoriaeth Glinigol (2008), *Surgical management of otitis media with effusion in children*, tudalen 1, adnod 1.1.

# Eitem 2.5

## **P-04-482 Hysbysfyrddau cyhoeddus ar draws Cymru i rhoi wybod i'r cyhoedd pwy yw eu cynrychiolwyr gwleidyddol**

### **Geiriad y ddeiseb:**

Rydym yn galw ar Gynulliad Cenedlaethol Cymru i annog Llywodraeth Cymru i ddatblygu system genedlaethol i osod hysbysfyrddau cyhoeddus mawr (tua 5x4 troedfedd fel enghraifft) ym mhob awdurdod lleol a ward etholiadol Cymru, yn rhoi gwybod yn glir i bawb pwy yw eu Cynghorwyr ac Aelodau Cynulliad lleol, ac yn cynnwys gwybodaeth glir am sut, ble a phryd y gellir cysylltu a chyfarfod â hwy i gyd, a gwybodaeth reolaidd a diweddar am ble a phryd y cynhelir holl gyfarfodydd y cyngor lleol.

Mae gwir angen i bobl gael gwybod pwy yw eu cynrychiolwyr gwleidyddol ar bob lefel, gyda hysbysfyrddau sy'n cynnwys gwybodaeth glir ac eglur wedi'u lleoli'n ganolog ym mhob awdurdod lleol a ward etholiadol Cymru. Gellid hefyd ystyried rhoi oriau a lleoliadau cymorthfeydd, a chyfarfodydd y cyngor o bosibl, i gael eu safoni ledled Cymru (e.e. 1-3pm ar ddydd Sadwrn cyntaf pob mis mewn canolfannau cymunedol lleol ledled Cymru fel enghraifft gyffredinol) fel y gall pobl ryngweithio a chysylltu â'u cynrychiolwyr yn fwy effeithiol. Bydd hyn i gyd yn annog dinasyddion Cymru i ymwneud yn fwy â democratiaeth eu gwlad a'u cymunedau.

**Prif ddeisebydd:** Cymru Sofren

**Ysytiriwyd am y tro cyntaf gan y Pwyllgor:** 14 Mai 2013

**Nifer y llofnodion :** 11

## **P-04-483 Polisi Cymraeg Clir / Plain English ar gyfer pob cyfathrebiad y Cynulliad Cenedlaethol a Llywodraeth Cymru**

### **Geiriad y ddeiseb:**

Rydym yn galw ar Gynulliad Cenedlaethol Cymru i ddatblygu polisi Cymraeg Clir/Plain English ar gyfer ei holl gyfathrebiadau, a hefyd rydym yn galw ar Gynulliad Cenedlaethol Cymru i annog Llywodraeth Cymru i ddatblygu polisi o'r fath fel bod yr iaith a ddefnyddir yn glir ac yn ddealladwy bob amser.

Mae siarad dwbl, iaith gyfreithiol ddiangen a defnyddio acronymau a jargon annealladwy, ar ffurf ysgrifenedig ac ar lafar yn Siambr y Senedd, yn atal gwleidyddiaeth yng Nghymru rhag bod mor gynhwysol a hygyrch ag y dylai fod. Byddai polisi iaith glir yn helpu i annog mwy o ddiddordeb a chyfranogiad mewn gwleidyddiaeth Cymru ymysg pawb. Dylai'r polisi hefyd fod yn gymwys i ddogfennau cyfreithiol/Biliau/Deddfau cyhyd â'u bod yn parhau i fod yn gyfreithiol gadarn. Fel enghraifft dda o gyfathrebiad dealladwy a chlir, gellid defnyddio templed Cymraeg Clir Canolfan Bedwyr fel templed Cymraeg cyfatebol i dempled Plain English, fel bod y defnydd o'r Gymraeg, p'un a gaiff ei defnyddio mewn adroddiadau gwreiddiol neu ddeunydd wedi'i gyfieithu, yn berthnasol, modern a dealladwy, ac nid yn gyfieithiad llythrennol, annealladwy a slafaid o'r geiriadur o'r fersiwn Saesneg. Mae dyletswydd ar y Cynulliad a Llywodraeth Cymru i sicrhau bod pob penderfyniad llywodraethu sy'n effeithio ar Gymru yn ddealladwy i bawb, pa bynnag iaith a ddefnyddir.

**Prif ddeisebydd:** Cymru Sofren

**Ysytiriwyd am y tro cyntaf gan y Pwyllgor:** 14 Mai 2013

**Nifer y llofnodion :** 11

P-04-483 Polisi Cymraeg Clir / Plain English ar gyfer pob cyfathrebiad y Cynulliad Cenedlaethol a Llywodraeth Cymru – Gwybodaeth Ategol gan y deisebydd i'r tîm clericio, 05.05.2013

Diolch Sian,

Dyma engreiffitiau bras o ambell sgwennu/cyfieithiadau gan y llywodraeth dwi wedi eu pigo allan yn sydyn, a sydd yn annerbynniol o anghlir yn fy marn i. Nid y geiriau eu hunain yn arbennig ond y diffyg siarad plaen a dealladwy, sydd yn golygu nad yw'r wybodaeth yn cael ei droslwyddo i'r cyhoedd mor effeithiol ag y gallai fod. Jisd tri engraifft sydd yn fama ond gobeithio fod y pwynt cyffredinnol ynglyn a'r angen am bolisi siarad plaen yn dod drosodd;

1. Y text yma islaw a mwy o'r linc

yma: <http://wales.gov.uk/consultations/education/inductionregulations/?lang=cy>

"Ymgynghoriad ar ddiwygiadau i'r rheoliadau ymsefydlu yng Nghymru"

Yn y ddogfen ymgynghori hon nodir y cynigion ar gyfer y rheoliadau newydd i ymsefydlu athrawon newydd gymhwyso yng Nghymru.

**Dechrau'r cyfnod ymgynghori:** 03/04/2012

**Diwedd y cyfnod ymgynghori:** 29/05/2012

Mynegodd y Gweinidog Addysg a Sgiliau ei fod yn bwriadu adolygu ymsefydlu statudol yng Nghymru ym mis Chwefror 2011. Diben yr adolygiad hwn yw datblygu ymagwedd gadarn o ansawdd uchel sy'n gyson ar raddfa genedlaethol tuag at ymsefydlu'r holl athrawon newydd gymhwyso ar draws Cymru, a rhoi mwy o hyblygrwydd er mwyn caniatáu i athrawon llanw gwblhau eu cyfnod ymsefydlu yng Nghymru"

2. Gweler y text islaw yn y linc <http://wales.gov.uk/legislation/?lang=cy>

"Mae'r ddeddfwriaeth a gyflwynir gan Lywodraeth Cymru yn ddarostyngedig i weithdrefnau gwahanol ac mae'n bosibl y bydd angen i Gynulliad Cenedlaethol Cymru graffu arni a'i chymeradwyo"

3. Yn ola, ma'r text yma o'r adroddiad Saesneg yma ar ddatblygu economaidd;

<http://wales.gov.uk/docs/det/report/110330erpframeworken.pdf>

**"Assessing Progress & Summative (evaluation)**

As commitments are delivered, then focus will in time move from monitoring activities and implementation to measuring the benefits of what is being achieved i.e assessing how well the Assembly Government is intervening. Regular stakeholder surveys will be a key input, and improvements to the business environment a key consideration. Activities delivered against the five Economic Renewal priorities will be evaluated, and when appropriate, an overall summative evaluation will be undertaken to understand the cumulative impacts of intervention

**Tracking & Outcome Indicators**

In Economic Renewal, a commitment was made to track the progress of the Welsh economy through a broad suite of indicators. A move away from an approach characterised by an excessive and sometimes unreflective focus on Gross Value Added was also suggested. The tracking and outcome

indicators should not be regarded as identifying those areas upon which Government alone can seek to have direct, attributable or significant influence , but they are important to understanding the wider context within which the Assembly Government intervenes. Baselines will be established, and indicators disaggregated by geography and demography where possible and appropriate"

Gobeithio fod hyn yn help yng nghyswllt y ddeiseb am bolisi Cymraeg a Saesneg clir,

Cofion,

Gruff

# Eitem 3.1

## **P-04-462 Gwahardd codi baner y Deyrnas Unedig ar adeiladau swyddogol yng Nghymru**

### **Geiriad y ddeiseb:**

Rydym yn galw ar Gynulliad Cenedlaethol Cymru i annog Llywodraeth Cymru i wahardd codi baner y Deyrnas Unedig y tu allan i adeiladau swyddogol Llywodraeth Cymru.

Mae'r arddangosfa gywilyddus hon o ansicrwydd ac ufudd-dod ar ran Llywodraeth Cymru a'n swyddogion cyngor lleol yn arfer trefedigaethol ffaidd ddylai fod wedi marw'r un pryd â'r 'Ymerodraeth Brydeinig' lawer o flynyddoedd yn ôl.

**Prif ddeisebydd:** Plaid Glyndwr

**Ysytiriwyd am y tro cyntaf gan y Pwyllgor:** 19 Mawrth 2013

**Nifer y llofnodion:** 200





Eich cyf/Your ref: P-04-462  
Ein cyf/Our ref: FM/00331/13

William Powell AC /AM  
Chair  
Petitions Committee  
[Naomi.stocks@wales.gov.uk](mailto:Naomi.stocks@wales.gov.uk)

10 April 2013

Dear William,

I am writing in response to your letter dated 21 March 2013 about the petition from Plaid Glyndwr considered by the Petitions Committee on 19 March.

Our policy is to fly the Red Dragon, Union Flag and European Union flag together every day on buildings in the Welsh Government administrative estate. This reflects the governance of Wales as a nation within the United Kingdom and the European Union.

Yours sincerely

A handwritten signature in black ink, appearing to read 'Carwyn Jones'.

**CARWYN JONES**

# Eitem 3.2

## **P-04-319 Deiseb ynghylch Traffig yn y Drenewydd**

### **Geiriad y ddeiseb**

Rydym yn galw ar Gynulliad Cenedlaethol Cymru i annog Llywodraeth Cymru i:

1. Osod cylchfan ger y gyffordd â heol Ceri ac, os bydd llif y traffig yn gwella, osod cylchfan barhaol yno.
2. Cyhoeddi dyddiad cychwyn cynnar i adeiladu ffordd osgoi i'r Drenewydd ac i'r gwaith hwnnw fynd ar drywydd carlam hyd nes ei gwblhau.

**Cyflwynwyd gan:** Paul Pavia

**Ystyriwyd gan y Pwyllgor am y tro cyntaf:** Mis Mehefin 2011

**Nifer y llofnodion:** 10 (casglwyd tua 5,000 o lofnodion ar ddeiseb gysylltiedig).

Edwina Hart MBE OStJ AC / AM  
Gweinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth  
Minister for Economy, Science and Transport



Llywodraeth Cymru  
Welsh Government

Eich cyf/Your ref P-04-319  
Ein cyf/Our ref EH/00822/13

William Powell AM  
Chair of Petitions Committee

committeebusiness@Wales.gsi.gov.uk

24<sup>th</sup>

April 2013

Dear William

Thank you for your letter of 8 April 2013.

I can confirm that construction is programmed to commence in early 2015 subject to the satisfactory completion of the statutory processes and availability of finance.

I will update the committee on any development.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay  
Caerdydd • Cardiff  
CF99 1NA

*Wedi'i argraffu ar bapur wedi'i ailgylchu (100%)*

English Enquiry Line 0845 010 3300  
Llinell Ymholiadau Cymraeg 0845 010 4400  
[Correspondence.edwina.Hart@Wales.gsi.gov.uk](mailto:Correspondence.edwina.Hart@Wales.gsi.gov.uk)  
Printed on 100% recycled paper

# Eitem 3.3

## **P-04-426 Cyflwyno terfyn cyflymder gorfodol o 40mya ar ffordd yr A487 ym Mlaen-porth, Ceredigion**

### **Geiriad y ddeiseb:**

Rydym ni, Cyngor Cymuned Aber-porth, yn galw ar Gynulliad Cenedlaethol Cymru i annog Llywodraeth Cymru i gyflwyno terfyn cyflymder gorfodol o 40mya ar ffordd yr A487 ym Mlaen-porth, Ceredigion.

### **Gwybodaeth ychwanegol:**

#### **Cefndir -**

Mae pentref Blaen-porth yn gorwedd bob ochr i'r brif ffordd arfordirol rhwng de a gogledd Cymru, sef yr A487. Mae tua dwy ran o dair o boblogaeth y pentref yn byw i'r de o'r brif ffordd; mae'r gweddill yn byw yn bennaf o amgylch yr eglwys leol i'r gogledd. Yn ôl y wybodaeth y mae Cyngor Cymuned Aber-porth wedi'i chanfod, hwn yw'r unig bentref heb derfyn cyflymder gorfodol ar hyd arfordir Bae Ceredigion rhwng Abergwaun i'r de a Phorthmadog, Gwynedd, i'r gogledd.

#### **Data hanesyddol hyd at Ebrill 2012: -**

Mae llythyrau a negeseuon e-bost niferus wedi'u hanfon at Asiantaeth Cefnffyrdd Canolbarth Cymru a Chyngor Sir Ceredigion.

Ni chafwyd yr un ateb gan Asiantaeth Cefnffyrdd Canolbarth Cymru. Mae Adran Briffyrdd Ceredigion yn ymateb ar ffurf llythyrau neu drwy e-bost, ond ni chafwyd cefnogaeth i'r newid.

Ym mis Hydref 2009, cafwyd Cylchlythyr Llywodraeth Cymru 24/2009: Gosod Terfynau Cyflymder Lleol yng Nghymru. Am ddwy flynedd ni wnaeth Gyngor Sir Ceredigion ddim, ac yna, mewn cyfarfod o Gabinet y Cyngor ar 25/10/2011, cynigiwyd moratorium ar gyflwyno terfynau cyflymder newydd. Roedd hyn ar yr wythfed o'r naw tudalen a oedd yn cael eu trafod: fait accompli! Mae penderfyniad swyddogion Cyngor Sir Ceredigion i ddechrau'r broses ddwy flynedd ar ôl dyddiad y cylchlythyr ac i gymryd tair blynedd (tan fis Rhagfyr 2014) i'w rhoi ar waith yn cwestiynu hygrdedd y broses.

Ysgogodd y penderfyniad Gyngor Cymuned Aber-porth i ysgrifennu at Brif Weithredwr Cyngor Sir Ceredigion, ond roedd yr ateb ond yn cefnogi'r "party line".

Yn ystod y cyfnod hwn, roedd Elin Jones, Aelod Cynulliad Ceredigion, hefyd yn ceisio cyflwyno terfyn cyflymder gorfodol ond heb lwyddiant.

#### **O fis Mai 2012 ymlaen: -**

Ar ôl yr etholiadau lleol ym mis Mai, teimlodd Cyngor Cymuned Aber-porth fod ganddo fandad newydd gan yr etholwyr i geisio unwaith eto i gael terfyn cyflymder gorfodol ym Mlaen-porth.

Cychwyn yr ymgyrch oedd ymweliad safle gyda'r Cynghorydd Alun Williams, Aelod Cabinet y Cyngor dros Drafnidiaeth, a gefnogodd ein hachos ac a anfonodd negeseuon e-bost at Adran Briffyrdd y Cyngor a menter Gan Bwyll.

Cyfarfu cadeirydd Pwyllgor Priffyrdd Cyngor Cymuned Aber-porth â Mark Williams, Aelod Seneddol Ceredigion, a gynigiodd ei gefnogaeth yntau.

Penderfynwyd hefyd anfon copi at Aelodau Cynulliad Rhanbarthol Canolbarth a Gorllewin Cymru. Cafodd Rebecca Evans AC ateb o'r diwedd gan Mr Deio Evans o'r Asiantaeth, yn ailadrodd yr un stori, sef y bydd rhaid aros tan fis Rhagfyr 2014 cyn y gwneir unrhyw benderfyniadau newydd ar derfynau cyflymder. Cynigiodd William Powell AC y Pwyllgor Deisebau fel cyfle olaf.

### **Gwybodaeth ychwanegol o ran diogelwch: -**

Ddiwedd tymor yr haf 2012, caeodd Cyngor Sir Ceredigion yr ysgol leol, Ysgol Gynradd Blaen-porth, ynghyd â sawl ysgol arall, ac agorodd ysgol newydd, Ysgol Gymunedol T Llew Jones, ym Mrynhoffnant, Ceredigion, rhyw bum milltir i'r gogledd ar yr A487.

Fel y nodwyd yn y paragraff cefndir, mae dwy ran o dair o gartrefi Blaen-porth yn rhan ddeheuol y pentref. Mae gan y disgyblion hyn a'u rhieni ddau ddewis o ran mynd i'r ysgol newydd.

1. Gallant fynd â'u plant ysgol gynradd yn y bore i'r safle bws dros y ffordd sydd o fewn terfyn cyflymder cynghorol gyda therfyn cyfreithiol o 60mya (amcangyfrifir bod dros hanner y traffig yn mynd yn gynt na'r cyflymder cenedlaethol hwn). Mae amseroedd codi plant ysgol hefyd yn cyd-daro â thraffig cymudwyr, neu
2. Gallant gludo'r plant mewn ceir i faes parcio cyn-ysgol Blaen-porth fel y gallant ddal y bws yn ddiogel. Mae risgiau ynghlwm â'r dewis hwn hefyd, o ran mai hyn a hyn o amser yn unig sydd ar gael i ddal y bws ysgol, yn hytrach nag o'r blaen pan oedd yr ysgol ar agor.

Wrth gwrs, bydd y plant sy'n byw ar ochr ogleddol y pentref yn gorfod croesi'r ffordd beryglus hon wrth ddychwelyd o'r ysgol.

Mae'r sefyllfa hon wedi cael sylw yn y wasg leol, a hynny yn rhifyn 25 Medi 2012 o'r Tivy-Side Advertiser.

**Crynodeb: -**

Nid yw Cyngor Cymuned Aber-porth yn gallu deall pam nad oes terfyn cyflymder gorfodol ym Mlaen-porth, na diffyg cefnogaeth Asiantaeth Cefnffyrdd Canolbarth Cymru a Chyngor Sir Ceredigion i gyflwyno terfyn. Nid yw Ceredigion yn sir fawr, ac mae cymryd tair blynedd i wirio terfynau cyflymder ar Ffyrdd A a B yn ymddangos yn gyfnod eithriadol o hir i gynnal ymarfer o'r fath.

Dylai cyflwyno terfyn cyflymder mewn un pentref ar yr A487 yn y sir fod yn gymharol ddidrafferth.

**Cynigiwyd y ddeiseb gan:** Cyngor Cymuned Aber-porth

**Y dyddiad yr ystyriodd y Pwyllgor y ddeiseb am y tro cyntaf:** 16 Hydref 2012

**Nifer y llofnodion:** Cyngor Cymuned Aber-porth

Edwina Hart MBE OStJ AC / AM  
Gweinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth  
Minister for Economy, Science and Transport



Llywodraeth Cymru  
Welsh Government

Eich cyf/Your ref P-04-426  
Ein cyf/Our ref EH/00598/13

William Powell AM  
Chair of the Petitions  
Committee

naomi.stocks@wales.gov.uk

16 April 2013

Dear William,

Thank you for your letter of 27 February regarding the Petitions Committee's request for an update on the speed limit review on the A487 through the village of Blaenporth.

The review of the A487 is due for completion by the end of June. I will write to you again in July.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay  
Caerdydd • Cardiff  
CF99 1NA

Wedi'i argraffu ar bapur wedi'i ailgylchu (100%)

English Enquiry Line 0845 010 3300  
Llinell Ymholiadau Cymraeg 0845 010 4400  
[Correspondence.edwina.Hart@Wales.gsi.gov.uk](mailto:Correspondence.edwina.Hart@Wales.gsi.gov.uk)  
Printed on 100% recycled paper

# Eitem 3.4

## **P-04-459 Cysylltiad rheilffordd uniongyrchol o Faes Awyr Caerdydd i ganol Caerdydd a gorllewin Cymru**

### **Geiriad y ddeiseb:**

Rydym yn galw ar Gynulliad Cenedlaethol Cymru i annog Llywodraeth Cymru i ddatblygu cysylltiad rheilffordd uniongyrchol o Faes Awyr Caerdydd i ganol Caerdydd a gorllewin Cymru.

Mae angen mawr am linell reilffordd gyflym uniongyrchol o Faes Awyr Caerdydd i orsaf drenau Caerdydd Canolog (ac i orllewin Cymru) fel bod y gwasanaethau a'r ddarpariaeth briodol ar gael yn ein Maes Awyr Cenedlaethol ar gyfer ymwelwyr cenedlaethol a rhyngwladol. Mae gorsaf reilffordd yn y Rhws eisoës, sy'n llai na milltir o'r maes awyr. Mae'n gyfle na ddylid ei golli i estyn y llinell i Faes Awyr Rhyngwladol Caerdydd fel y gall teithwyr o bob rhan o'r byd neidio yn syth ar ôl glanio ar drên sy'n mynd â nhw i brifddinas Cymru a thu hwnt i hynny.

**Prif ddeisebydd:** Cymru Sofren

**Ysytirwyd am y tro cyntaf gan y Pwyllgor:** 19 Mawrth 2013

**Nifer y llofnodion:** 39





Ein cyf/Our ref EH/00821/13

William Powell AC  
Cadeirydd y Pwyllgor Deisebau

[committeebusiness@cymru.gsi.gov.uk](mailto:committeebusiness@cymru.gsi.gov.uk)

30 Ebrill 2013

Annwyl William,

## Deiseb yn galw am Reilffordd Uniongyrchol i Faes Awyr Caerdydd

Diolch ichi am eich llythyr dyddiedig 8 Ebrill ar ran y Pwyllgor Deisebau ynghylch deiseb Cymru Sofren yn galw am gysylltiad rheilffordd uniongyrchol i Faes Awyr Caerdydd.

Mae Tasglu Trafnidiaeth Integredig De-ddwyrain Cymru wedi bod yn edrych ar gynlluniau i ddatblygu rhwydwaith drafnidiaeth gyhoeddus y rhanbarth. Cyflwynodd y Gweithlu adroddiad imi ar 28 Mawrth, ac rwyf yn ystyried hwnnw ar hyn o bryd.

Byddaf yn rhoi rhagor o wybodaeth i'r aelodau maes o law.

**Y Pwyllgor Menter a Busnes  
Enterprise and Business Committee**

Cynulliad  
Cenedlaethol  
Cymru

National  
Assembly for  
Wales



William Powell AC  
Cadeirydd y Pwyllgor Deisebau  
Cynulliad Cenedlaethol Cymru  
Bae Caerdydd

Bae Caerdydd / Cardiff Bay  
Caerdydd / Cardiff  
CF99 1NA

Cyfeirnod/ref P-04-459

**Annwyl Bill**

Rwyf yn ysgrifennu atoch mewn perthynas â'ch llythyr dyddiedig 8 Ebrill 2013 ynghylch y ddeiseb a ganlyn gan Sovereign Wales:

*Rydym yn galw ar Gynulliad Cenedlaethol Cymru i annog Llywodraeth Cymru i ddatblygu cysylltiad rheilffordd uniongyrchol o Faes Awyr Caerdydd i ganol Caerdydd a gorllewin Cymru.*

Fel y gwnaethoch sôn, bu i'r Pwyllgor wneud yr argymhelliad a ganlyn i Lywodraeth Cymru yn ei adroddiad ar gysylltedd rhyngwladol drwy borthladdoedd a meysydd awyr Cymru, a gyhoeddwyd ym mis Gorffennaf 2012.

**Argymhelliad 6.** *Archwilio'r achos busnes o blaid gwasanaeth trên aml, uniongyrchol i Faes Awyr Caerdydd, pe bai hyn yn cael ei gefnogi gan yr asesiad annibynnol a awgrymwyd yn Argymhelliad 4.*

Fel y gwnaethoch nodi hefyd, derbyniwyd yr argymhelliad hwn mewn egwyddor gan Lywodraeth Cymru yn yr ymateb a ganlyn i'r adroddiad:

**Ymateb: Derbyn mewn Egwyddor**

*Derbyniwn yr argymhelliad hwn mewn egwyddor. Mae Cynllun Trafnidiaeth Cenedlaethol Llywodraeth Cymru, sydd wedi'i flaenoriaethu, yn ein hymrwymo i ystyried cynyddu'r gwasanaethau ar reilffordd Bro Morgannwg fel bod gwasanaeth bob hanner awr. Byddai hynny'n dyblu nifer y gwasanaethau sy'n galw yng ngorsaf (Maes Awyr Rhyngwladol Caerdydd) y Rhws. Bydd hyn yn bosibl ar ôl i Network Rail gwblhau'r rhaglen i Adnewyddu Signalau Ardal Caerdydd, sydd i fod i ddod i ben yn 2015. At hynny, rydym yn parhau i ariannu'r gwasanaeth bws gwennol poblogaidd rhwng Gorsaf (Maes Awyr Rhyngwladol Caerdydd) y Rhws a Maes Awyr Caerdydd, ac mae'r gwasanaeth wedi'i estyn yn ddiweddar i Ardal Fenter Sain Tathan.*

Bae Caerdydd  
Cardiff Bay  
CF99 1NA

Clerc/Clerk: Dr Siân Phipps, Ffôn /Tel: 029 2089 8582  
E-bost /Email: enterprise.committee@wales.gov.uk

Yn ychwanegol at hyn, ym mis Ionawr eleni, cynhaliodd y Pwyllgor sesiwn graffu ddilynol gyda'r Prif Weinidog, Carwyn Jones, ar Faes Awyr Caerdydd.

Mewn ymateb i gwestiynau'r Aelodau ynghylch y gwasanaethau rheilffordd i faes awyr Caerdydd ac oddi yno, nododd y Prif Weinidog y byddai'n rhaid iddo ystyried y cysylltiadau i'r maes awyr mewn amser, ond mai ei flaenoriaeth oedd sicrhau bod y maes awyr yn parhau i fodoli yn y lle cyntaf.


Cadarnhaodd fod sefydlu cysylltiad rheilffordd i mewn i'r maes awyr gyda'r posibilrwydd o wella'r mynediad i'r Rhws ac oddi yno yn un cynnig y gellid ei ystyried, ond bod cynigion eraill hefyd y gellid eu hystyried, fel adeiladu cyfnewidfa yn agosach at draphont Porthceri.

Ail-ddatganodd hefyd y ffaith y byddai cysylltiadau rheilffordd yn gwella o ganlyniad i'r gwaith ar y signalau yn ardal Caerdydd o 2015, a fyddai'n arwain at wasanaeth pob hanner awr rhwng Caerdydd a'r maes awyr.

Dywedodd hefyd y byddai'n rhaid ystyried datblygu gwasanaeth rheilffordd rhwng y maes awyr a Llundain.

Bydd y Pwyllgor yn parhau i gadw golwg ar y mater hwn. Yn y cyfamser, gobeithio y bydd yr ymateb hwn yn cynorthwyo eich trafodaethau ar y ddeiseb hon.

Yn gywir,

A handwritten signature in black ink, appearing to read 'Nick Ramsay'. The signature is fluid and cursive, with the first name 'Nick' written in a smaller, more compact style than the last name 'Ramsay'.

**Nick Ramsay AC / AM**  
Cadeirydd / Chair

# Eitem 3.5

## **P-04-468 Pryderon am Ddiogelwch Ffordd A48 Cas-gwent**

### **Geiriad y ddeiseb:**

Rydym yn galw ar Gynulliad Cenedlaethol Cymru i annog Llywodraeth Cymru i ostwng y terfyn cyflymder ar Bont yr A48 yng Nghas-gwent o 50mya i 30mya.

**Prif ddeisebydd:** Cyngor Tref Cas-gwent

**Ysytirwyd am y tro cyntaf gan y Pwyllgor:** 19 Mawrth 2013

**Nifer y llofnodion :** Casglodd deiseb gysylltiedig 1,000 o lofnodion

Edwina Hart MBE OStJ AC / AM  
Gweinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth  
Minister for Economy, Science and Transport



Llywodraeth Cymru  
Welsh Government

Eich cyf/Your ref P-04-468  
Ein cyf/Our ref EH/00648/13

William Powell AM  
Chair of the Petitions  
Committee

naomi.stocks@wales.gov.uk

16 April 2013

Dear William,

Thank you for your letter of 22 March regarding a petition received from Chepstow Town Council about the speed limit on the A48 Chepstow Bridge.

I appreciate the depth of feeling from the Town Council and the pupils of Wyedean School wanting the speed limit reduced to 30mph on the bridge and safety barriers erected on the pavement.

It is not possible to erect barriers on the pavement, as this would restrict the use of the pavement due to the narrow width of it.

The Wye Bridge forms the border with England so I cannot unilaterally reduce the speed limit. However, we are conducting a speed limit review of all our trunk roads and completion of the A48 review is due by the end of June.

I will write to you with an update in July.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay  
Caerdydd • Cardiff  
CF99 1NA

Wedi'i argraffu ar bapur wedi'i ailgylchu (100%)

English Enquiry Line 0845 010 3300  
Llinell Ymholiadau Cymraeg 0845 010 4400  
[Correspondence.edwina.Hart@Wales.gsi.gov.uk](mailto:Correspondence.edwina.Hart@Wales.gsi.gov.uk)  
Printed on 100% recycled paper

# Eitem 3.6

## **P-04-398 Ymgyrch dros gael cofrestr ar gyfer pobl sy'n cam-drin anifeiliaid yng Nghymru**

### **Geiriad y ddeiseb:**

Llofnodwch i gefnogi cofrestr ar gyfer pobl sy'n cam-drin anifeiliaid. Dyma gronfa ddata canolog i Gymru a fydd yn cynnwys enw, cyfeiriad a cholffarnau pobl sydd wedi'u cael yn euog o unrhyw fath o gam-drin neu greulondeb yn erbyn anifeiliaid yng Nghymru. Bydd yn ofynnol i fridwyr neu werthwyr anifeiliaid wirio'r gronfa ddata canolog hwn cyn caniatáu i anifail y maent yn berchen arno neu wedi'i fridio fynd i ddarpar berchennog neu gartref newydd; os canfyddir bod anifail gan rywun sydd wedi'i gael yn euog o gam-drin neu greulondeb yn erbyn anifeiliaid, bydd y cyflenwr neu'r bridwr yn atebol a chaiff ei erlyn. Ar hyn o bryd, nid oes cyfraith i atal rhywun sydd wedi'i gael yn euog o greulondeb i anifeiliaid rhag symud ychydig filltiroedd i fyny'r ffordd a chael anifail arall a'i gam-drin ymhellach. Rhaid gweithredu cyfreithiau llymach er mwyn helpu i ddiogelu anifeiliaid. Mae angen dirwyon trymach a dedfrydau hwy o garchar yn ogystal â chofrestr ar gyfer pobl sy'n cam-drin anifeiliaid.

Mae Efrog Newydd a nifer o daleithiau yn yr Unol Daleithiau eisoes wedi cyflwyno'r gyfraith hon; beth sy'n rhwystro Cymru rhag arwain y ffordd yn y Deyrnas Unedig? Rydych wedi clywed am Gyfraith Sarah, a luniwyd i gadw troseddwr rhyw rhag aildroseddu. Nawr rydym yn gobeithio cael cyfraith a grëwyd yn y gobaith o atal pobl sy'n cam-drin anifeiliaid rhag achosi rhagor o greulondeb, neu rhag symud ymlaen at gam-drin pobl. Mae ymchwil wedi dangos bod cydberthynas gref iawn rhwng cam-drin anifeiliaid a cham-drin domestig. Mae nifer o lofruddion yn dechrau drwy arteithio anifeiliaid, felly gallem hefyd ddiogelu bywydau pobl.

**Cyflwynwyd y ddeiseb gan:** Mari Roberts & Sara Roberts

**Ystyriwyd y ddeiseb am y tro cyntaf:** 19 Mehefin 2012

**Nifer y llofnodion:** 69



Ref: P-04-398  
Attention of:  
Committee Clerk  
Petitions Committee  
National Assembly for Wales,  
Cardiff Bay  
CF99 1NA  
E-mail  
[petition@wales.gov.uk](mailto:petition@wales.gov.uk).  
[naomi.stocks@wales.gov.uk](mailto:naomi.stocks@wales.gov.uk)

**Dear Mr Powell**

**Petitions committee consultation: Animal Offenders Register  
Response by Cats Protection: March 2013**

Thank you for consulting Cats Protection with regard to this petition under cover of your letter of 27 February 2013, addressed to Peter Hepburn our Chief Executive. He has passed this to me as Advocacy Manager to collate our submission. We are pleased to submit our response as below to the consultation questions.

**Introduction**

